# ATODIAD A – PENNOD 7.3 ECONOMI AC ADFYWIO

## Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr

### Cefndir a Cyflwyniad

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 866 | Grid Cenedlaethol (Mrs Rebecca Evans) [2961] | 7.3.1 | Gwrthwynebu | Byddai National Grid yn disgwyl gweld cyfeiriad at Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) o fewn cefndir polisi'r CDLl ar y Cyd ar brosiectau isadeiledd mawr, er enghraifft, gallai paragraffau 7.3.1 i 7.3.17 gynnwys gwybodaeth bellach ar rôl y Datganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n cael ei grybwyll yn fras ar ddechrau Polisi Strategol PS8. | **Cytuno** - Fe fydd yna wybodaeth ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y testun cefndirol er mwyn amlygu rôl y Datganiad Polisi Cenedlaethol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>I ddangos bod ystyriaeth briodol wedi ei roi i Bolisïau a Chanllawiau Cenedlaethol cynigir cynnwys gwybodaeth bellach yn ymwneud a rôl y Datganiadau Polisi Cenedlaethol.<br><br>**Newid â Ffocws: NF40, NF41, NF42, NF45** |
| 1139<br><br>1156<br><br>1140<br><br>1141<br><br>1142<br><br>1143 | Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | 7.3.1<br><br>7.3.2<br><br>7.3.3<br><br>7.3.4<br><br>7.3.5<br><br>7.3.6 | Gwrthwynebu | Credir y gellid gwella eglurder y paragraffau yma, yn enwedig beth sy'n cael ei olygu gan y gwahaniaeth rhwng "prosiectau isadeiledd mawr" a phrosiectau isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol fel sydd wedi'u diffinio gan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r bennod hon yn amrywio rhwng bod wedi'i hysgrifennu i'w defnyddio'n gyffredinol efo "prosiectau isadeiledd mawr" a bod wedi'i hysgrifennu'n benodol am Brosiect Wylfa Newydd. Mae rywfaint o'r testun sy'n egluro a pholisi yn cynnwys cymalau wedi'u drafftio ddim ond ar gyfer fersiynau cyn mabwysiadu (h.y. adnau) y Cynllun (a fydd felly'n dod i ben ar adeg mabwysiadu) ac eraill yn cynnwys cymalau ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu, cyfnod y cais a'r cyfnod ôl adeiladu. Mae | **Derbyn yn rhannol -** Ystyrir fod yna bwyslais digonol o fewn y Cynllun yn cael ei roi i gynlluniau Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n deillio ohono yn y Cynllun.<br><br>Ystyrir fodd bynnag fod y rhan yma o'r Cynllun angen ei ail-strwythuro er mwyn gwahaniaethu rhwng Wylfa Newydd a datblygiadau eraill o Brosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn ogystal cytunir fod angen cysoni'r derminoleg a ddefnyddir o fewn y |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1144<br><br>1145<br><br>1146<br><br>1147<br><br>1148<br><br>1149<br><br>1150<br><br>1151<br><br>1152<br><br>1153 | | 7.3.7<br><br>7.3.9<br><br>7.3.10<br><br>7.3.11<br><br>7.3.12<br><br>7.3.13<br><br>7.3.14<br><br>7.3.15<br><br>7.3.16<br><br>7.3.17 | | angen adolygu a safoni hyn er mwyn osgoi dryswch wrth ddehongli. Yn ogystal â hynny, ceir man wallau yn y disgrifiad o'r drefn PSCA a'r disgrifiad o "ddatblygiad cysylltiol". | Cynllun.<br><br>**Argymhellion**<br><br>I sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun ac eglurder cynigir ail-eirio ac ailstrwythuro geiriad y Polisi (PS8 a PS9). Fe fydd y derminoleg a ddefnyddir hefyd yn cael ei ddiwygio yn unol.<br><br>**Newid â Ffocws: NF40, NF41, NF42, NF45** |
| 867 | Grid Cenedlaethol (Mrs Rebecca Evans) [2961] | 7.3.13 | Gwrthwynebu | Mae gan National Grid rai pryderon ynghylch y disgrifiad o gyfraniadau cynllunio, yn enwedig buddiannau cymunedol, ym mharagraffau 7.3.13 i 7.3.17. Bydd National Grid bob tro yn ceisio lleihau effeithiau negyddol ei ddatblygiadau arfaethedig trwy iteriadau dylunio sy'n cael eu hystyried yn ofalus ac sy'n seiliedig ar asesiadau ac ymgynghoriad; a thrwy adnabod mesurau lliniaru cynhwysfawr. Cydnabyddir mewn rhai achosion na fydd amodau cynllunio o bosib yn ddigon i sicrhau'r dyluniad cynhenid a mesurau lliniaru pellach ac felly efallai y byddai angen eu sicrhau yn nhermau cynllunio trwy gytundeb Adran 106. Yn achos Prosiectau Isadeiledd sydd o Bwysigrwydd Cenedlaethol, mae EN-1 yn gosod yr amgylchiadau pan ellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer isadeiledd ynni, ac | **Ddim yn derbyn -** Er nad yw Buddiannau cymunedol gwirfoddol yn orfodol i'r grid Cenedlaethol mae'n berthnasol i gynlluniau Prosiectau Cenedlaethol Isadeiledd Mawr eraill a chan hynny ni ddylid dileu'r meini prawf.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mae'n pwysleisio na ellir ond rhoi pwysau i rwymedigaethau sy'n bodloni'r holl brofion ar gyfer eu defnyddio. Diwygiwch faen prawf 4 yn PS8 a dilëwch faen prawf 5. | |

**PS8 – Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 466 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI STRATEGOL PS8 | Cefnogi | Mae Bourne Leisure yn credu y gallai'r stoc bresennol o lety gwyliau, gan gynnwys yr hyn a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr fod o gymorth i gwrdd â'r gofyn am dai ar gyfer y 8,500 o weithwyr adeiladu a fydd ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu brig. Mae'r Cynllun Adnau yn datgan y bydd llety ar gyfer y gweithlu trwy amryfal ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol a adeiladir gan Horizon | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 843 | Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767] | POLISI STRATEGOL PS8 | Cefnogi | Mae Bourne Leisure yn ystyried y byddai modd i'r stoc llety gwyliau presennol, yn cynnwys yr un a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr, gynorthwyo i gwrdd â'r gofyn am dai i 8,500 o weithwyr adeiladu fydd yn gweithio ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi y byddai'r gweithlu yn cael lle i fyw trwy amryw o ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol fydd yn cael ei adeiladu gan Horizon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 1154 | Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI STRATEGOL PS8 | Gwrthwynebu | Mae sylwadau Horizon yn dymuno cael eglurhad mai PS9 sy'n gymwys ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn hytrach na chymysgedd o PS8 a PS9. Wedi cau PS8 allan o'r fframwaith polisi ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, nid oes angen felly i Horizon wneud sylwadau penodol ar PS8 heblaw am nodi y gallai fod yn fuddiol i unrhyw newidiadau i PS9 (yn unol efo'i sylwadau isod) barhau trwodd i PS8 er mwyn cysondeb. | **Derbyn yn rhannol** - Ystyrir yn briodol i ailstrwythuro y rhan yma o'r Cynllun er mwyn sicrhau fod yna ddiffiniad mwy clir rhwng yr adrannau sydd yn ymwneud a Wylfa Newydd a'r rhai sydd yn ymwneud a phrosiectau sydd yn cyfeirio at Brosiectau Isadeiledd Cenedlaethol Mawr. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>I sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun fe fydd y polisïau yn cael ei ail-eirio a'i ail-strwythuro (PS8 and PS9).<br><br>**Newid â Ffocws: NF41** |

**PS9 – Datblygiad yn Ymwneud â Wylfa Newydd**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 464 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI STRATEGOL PS9 | Cefnogi | Mae Bourne Leisure yn credu y gallai'r stoc bresennol o lety gwyliau, gan gynnwys yr hyn a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr fod o gymorth i gwrdd â'r gofyn am dai ar gyfer y 8,500 o weithwyr adeiladu a fydd ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu brig. Mae'r Cynllun Adnau yn datgan y bydd llety ar gyfer y gweithlu trwy amryfal ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol a adeiladir gan Horizon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 844 | Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767] | POLISI STRATEGOL PS9 | Cefnogi | Mae Bourne Leisure yn ystyried y byddai modd i'r stoc llety gwyliau presennol, yn cynnwys yr un a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr, gynorthwyo i gwrdd â'r gofyn am dai i 8,500 o weithwyr adeiladu fydd yn gweithio ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi y byddai'r gweithlu yn cael lle i fyw trwy amryw o ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol fydd yn cael ei adeiladu gan Horizon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 862 | Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) | POLISI STRATEGOL PS9 | Gwrthwynebu | Mae angen 'cynllun amgen' rhag ofn na wnaiff y prosiect yma, sydd flynyddoedd i ffwrdd oddi ar gael penderfyniad terfynol, gael ei weithredu. | **Dim yn derbyn –** Mae'r polisi yma'n benodol berthnasol i ddatblygiad Wylfa Newydd. Os ydi Wylfa Newydd ddim yn mynd yn ei flaen yna ni |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | [2988] | | | | fydd angen defnyddio’r polisi yma.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 882 | Mr John Tripp [252] | POLISI STRATEGOL PS9 | Gwrthwynebu | Angen i gontractwyr Wylfa B gyflogi 85%+ o bobl leol. Mae angen ysgol hyfforddiant mawr. | **Dim yn derbyn -** Mae yna fuddsoddiad presennol yn mynd yn ei flaen i ddarparu cyfleusterau hyfforddi ar gyfer gweithwyr adeiladu ynghyd a gweithwyr gweithredol. Mae yna bolisiau o fewn y Cynllun a fydd angen cyfeirio atyny wrth ystyried ceidiadau ar gyfer cyfleusterau hyfforddi.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 930 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI STRATEGOL PS9 | Cefnogi | Efallai bydd angen buddsoddi yn rhai o'n hasedau ni er mwyn hwyluso twf yn ymwneud efo Wylfa Newydd. Mae ein buddsoddi Cynllunio Rheoli Asedau (AMP) yn cael ei reoleiddio, o ran faint o arian a hefyd amseriad y gwaith sydd wedi'i gynllunio. Felly gallai fod enghreifftiau'n digwydd lle na fydd anghenion datblygwyr yn cyd-fynd efo amseriad ein buddsoddiad ni. Pe byddai angen gwella'r seilwaith cyn gallu mynd ymlaen efo buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio, fe fyddem ni'n edrych ar ffyrdd eraill o lenwi'r bwlch ariannu hwnnw, fel trwy gael cyfraniadau oddi wrth ddatblygwyr | **Nodi’r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | trwy rwymedigaethau cynllunio. Unwaith y bydd lleoliad y datblygiad cysylltiedig wedi cael ei gadarnhau, byddwn yn asesu'r effaith ar ein hasedau ni ac yn cynghori yn unol efo hynny. | |
| 1155 | Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI STRATEGOL PS9 | Gwrthwynebu | Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cydnabod y cyfle unigryw i drawsnewid economi a chymunedau Môn dylid datblygu polisïau penodol i Horizon ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a ddylent ynghyd â PS9 siapio'r ffordd o weithredu tuag at Brosiect Wylfa Newydd ac yn arbennig y cynigion ar gyfer datblygiad cysylltiedig. Gan gydnabod statws unigryw'r datblygiad, tra dylai polisïau eraill y Cynllun gael eu hystyried yn iawn, dylai PS9 a pholisïau arfaethedig penodol ar gyfer Wylfa Newydd gael blaenoriaeth lle mae anghysondeb neu wrthdaro rhwng y rhain a pholisïau eraill. Awgrymir newidiadau penodol i feini prawf 3, 7, 9, 11 & 12. | **Dim yn derbyn**- Ystyrir fod yna ystyriaeth briodol yn cael ei roi i gynlluniau Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n deillio o'r Cynlluniau. Mae yna bolisïau eraill o fewn y Cynllun sydd yn cynnwys yr egwyddorion polisi cynllunio a fyddai angen derbyn ystyriaeth wrth ymdrin â cheisiadau cysylltiedig â Wylfa Newydd.<br><br>Fe fydd yna waith pellach yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau cysondeb rhwng yr Cynlluna'r Canllaw Cynllunio Atodol sydd yn ymwneud a Wylfa Newydd, sydd yn debygol o arwain at adolygu'r Canllaw.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## Darparu Cyfleon ar Gyfer Economni Ffyniannus

### PS10 – Darparu Cyfle ar Gyfer Economi Ffyniannus

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 455 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI STRATEGAETH PS10 | Gwrthwynebu | Dylid ychwanegu cyfeiriad penodol i PS10 i adlewyrchu pwysigrwydd rôl twristiaeth i sicrhau economi sy'n ffynnu. Dylid ychwanegu 4ydd pwynt bwled i ddarllen: "4 Cefnogi datblygiad twristiaeth newydd neu ailddatblygiad rhai presennol lle'n briodol, er mwyn cymryd mantais lawn y budd economaidd mai datblygiad twristiaeth yn dod i ardal y Cynllun Lleol." | **Dim yn derbyn –** Ystyrir fod rhannau eraill o'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonnol a budiannau economaidd sydd yn deillio o mentrau twristiaeth.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 803 | Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | Yn seiliedig ar yr 807 ha o dir cyflogaeth ac eiddo cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLl Adnau, mae dros 66 mlynedd o gyflenwad tir ac eiddo cyflogaeth o fewn ardal y Cynllun.<br>Er y cydnabyddir y gallai Wylfa Newydd gael effaith economaidd sylweddol ar yr angen a'r gofyn am dir ac eiddo cyflogaeth, ni fydd angen y lefel hon o dir nac eiddo cyflogaeth.<br>Felly, mae'r Cynllun yn gôr ddynodi a gôr ddiogelu tir ac eiddo cyflogaeth yn sylweddol ac yn enwedig safleoedd sy'n annhebygol o ddarparu cyflogaeth oherwydd nad yw'r safleoedd yn diwallu anghenion diwydiant, neu eu bod yn destun cyfyngiadau safle sylweddol.<br>Felly, nid yw'r Polisi yn cydymffurfio â Phrawf Cadernid 2 gan nad yw'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a CE2 gan nad yw'n realistig wrth ystyried dewisiadau eraill neu'n seiliedig ar dystiolaeth gredadwy.<br><br>Dylid diwygio'r polisi fel nad yw ond yn cynnwys tir cyflogaeth ddigonol fydd ei angen ac sydd ar gael, ac sy'n addas ac y gellir ei ddarparu yn ystod Cyfnod y Cynllun. | **Derbyn** - Derbynnir fod angen eglurhad pellach o'r angen i warchod/dynodi 807ha o dir cyflogaeth. Credir fod y ffaith fod y polisi yn gwarchod ynghyd a dynodi safleoedd cyflogaeth yn creu dryswch.<br><br>Roedd y fersiwn adnau o'r Cynllun hefyd yn dynodi tir cyflogaeth newydd, h,y, safleoedd tir gwyrdd lle nad oes isadeiledd yn bodoli. Mae'r rheini hefyd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr ym Mholisi CYF1. Mae PS10 gan hynny yn adnabod safleoedd er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth bresennol ac i'r dyfodol. Mae'r ddarpariaeth wedi gwasgaru ar draws ardal y Cynllun ac yn cynnig dewis o ran lleoliad a maint. Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn rhoi elfen o hyblygrwydd o ran y dewis sydd ar gael.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn gwella eglurder cynigir fod y Polisi |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Strategol yn cael ei ddiwygio i gynnwys eglurhad pellach ynglŷn â sut mae'r ffigwr o dir cyflogaeth wedi ei bennu. Cynigir fod y polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng tir a ddynodir a beth sydd yn cael ei warchod.<br><br>**Newid â Ffocws: NF46** |
| 825 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | PS10 Sylw ar gasgliad yr anghenion am dir cyflogaeth o astudiaethau amgen. | **Derbyn yn rhannol –** Mewn ymateb i sylwadau gan wrthwynebwr arall fe fwriedir diwygio'r polisi er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth ynglyn a chasgliadau Arolwg Tir Cyflogaeth.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>I sicrhau eglurder cynigir diwygio'r Cynllun er mwyn cynnwys eglurhad pellach o ran y tir cyflogaeth a warchodir.<br><br>**Newid â Ffocws: NF46** |
| 828 | Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | Rydym yn falch fod Parc Amaeth Llanystumdwy wedi'i gynnwys o dan Safleoedd Eilaidd ond teimlwn fod safleoedd eraill y gellid eu hystyried e.e. hen Olchdy Afonwen.<br><br>Credwn y dylid gwneud mwy i gadw safleoedd diwydiannol pan maent yn newid dwylo ac nad oes digon yn y Cynllun i gefnogi busnesau bychain, y enwedig busnesau teuluol cefn gwlad. | **Dim yn derbyn -** Cydnabyddir fod gan fusnesau bychain gwledig rôl bwysig i chwarae o fewn yr economi leol a chredir fod Polisi CYF5 i o'r Cynllun yn ymdrin â'r mater yma'n ddigonol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 902 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI STRATEGOL | Gwrthwynebu | Nid yw PS10 yn gyson gyda gweddill y CDLl gan nad yw'n cydnabod budd economaidd sylweddol yr ardal leol o | **Dim yn derbyn -** Ystyrir fod rhannau eraill o'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol a buddiannau |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | PS10 | | ganlyniad i dwristiaeth. Mae paragraff 4.3 yn datgan bod twristiaid/ymwelwyr yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol. Felly, mae Bourne Leisure yn datgan y dylai PS10 adlewyrchu'r cyfraniad sylweddol i'r economi leol a ddaw yn sgil twristiaeth.<br><br>Yn ogystal, mae cydnabyddiaeth o rôl bwysig twristiaeth o fewn Polisi Strategol PS10 yn angenrheidiol i sicrhau cysondeb â PCC (para 11.1.1). Byddai hyn hefyd yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013 - 2020).<br><br>Felly, mae Bourne Leisure yn datgan y dylid ychwanegu cyfeiriad penodol i PS10 er mwyn adlewyrchu rôl bwysig twristiaeth wrth sicrhau economi sy'n ffynnu. | economaidd sydd yn deillio o fentrau twristiaeth<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 1046 | Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd, ond mae'n hanfodol bod y twf economaidd hwn yn gwireddu amcanion yr awdurdodau. Dylai'r awdurdodau esbonio sut na fydd gorgyflenwi'r farchnad fel hyn (tua 300ha) yn cael effaith negyddol ar werthoedd tir; na rhwystro datblygiad rhag dod i fod yna pheryglu dyheadau am dwf. | **Derbyn** - Derbynnir fod angen eglurhad pellach o'r angen i warchod/dynodi 807ha o dir cyflogaeth. Credir fod y ffaith fod y polisi yn gwarchod ynghyd a dynodi safleoedd cyflogaeth yn creu dryswch.<br><br>Roedd y fersiwn adnau o'r Cynllun hefyd yn dynodi tir cyflogaeth newydd, h,y, safleoedd tir gwyrdd lle nad oes isadeiledd yn bodoli. Mae rheini hefyd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr ym Mholisi CYF1. Mae PS10 gan hynny yn adnabod safleoedd er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth bresenol ac i'r dyfodol. Mae'r darpariaeth wedi wasgaru ar draws ardal y Cynllun ac yn cynnig dewis o ran lleoliad a maint. Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn rhoi elfen o hyblygrwydd o ran y dewis sydd ar gael. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Er mwyn gwella eglurder cynigir fod y Polisi Strategol yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys eglurhad pellach ynglŷn â sut mae'r ffigwr o dir cyflogaeth wedi ei bennu. Cynigir fod y polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng tir a ddynodir a beth sydd yn cael ei warchod.<br><br>**Newid â Ffocws: NF45, NF46, NF47** |
| 1166 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | Mae yna bryderon am y diffyg hyblygrwydd i'r safleoedd yn y polisïau hyn o ran safleoedd i'w defnyddio ar gyfer datblygiad cysylltiedig heblaw am ar gyfer cyflogaeth (B1, B2 a B8), yn enwedig mewn perthynas â newid defnydd ar gyfer etifeddiaeth (e.e. i dwristiaeth) gan y byddai hyn yn lleihau'n gyffredinol y safleoedd B1, B2 a B8 sydd ar gael ac felly'n mynd yn groes i'r bwriad i'r rhain fod yn safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i bolisïau PS10, CYF1 a CYF2 mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd a fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. | **Dim yn derbyn** - Cydnabyddir fod yna bosibilrwydd y gallai safleoedd cyflogaeth aros yn segur am gyfnod o amser heb fuddsoddiad a chan hynny mae yna sail o bosib i ganiatáu defnydd amgen (i gyflogaeth) ar rhai safleoedd. Nodir fodd bynnag fod yr Arolwg Tir Cyflogaeth wedi nodi'r angen i warchod a dynodi'r safleoedd dan sylw (ym mholisi CYF1) ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8 yn bennaf) a hynny yn dilyn asesiad o'r angen a'u gallu gwirioneddol i ddod yn ei flaen ar gyfer y defnydd dan sylw. Gan hynny, yn y man cychwynnol defnydd cyflogaeth yw'r defnydd a ffafrir ar y safleoedd cyflogaeth a enwir ym Mholisi CYF1.<br><br>Mae yna bolisi presennol sef Polisi CYF4 sydd yn rhoi elfen o hyblygrwydd ar y safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau amgen mewn achosion eithriadol yn unig, ble fo yna dystiolaeth gref yn cael ei gyflwyno i gyfiawnhau gwneud hynny. Mae'n gyson a Pholisi Cynllunio Cymru a TAN23. Mae Atodiad 9 y Cynllun Adnau |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn adnabod cyfres o ganllawiau cynllunio atodol a fydd yn cael eu paratoi i gefnogi’r Cynllun. Mae’n adnabod bwriad i baratoi un a fydd yn rhoi arweiniad ynglyn a’r dystiolaeth a fydd ei angen yn gysylltiedig â datblygiadau amgen.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1301 | Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | Barn Cyngor y Ddinas yw y dylid gwarchod safleoedd presennol ym Mangor sy'n rhoi lle i'r fath fentrau rhag ailddatblygiad. Byddai enghreifftiau yn cynnwys yr unedau bychan yng nghefn rhan uchaf y Stryd Fawr a Ffordd yr Orsaf a'r safle rhwng Ffordd Sackville a Mentec.<br><br>Dylid dynodi mwy o safleoedd ar gyfer defnydd o'r fath yn y CDLl ar y Cyd fel y byddai sefydlu busnesau bach yn cael ei annog er mwyn meithrin menter yn yr economi leol. | **Dim yn derbyn** – Mae yna Arolwg Tir Cyflogaeth wedi ei gynnal sydd wedi ceisio adnabod yr angen ar gyfer safleoedd cyflogaeth – mae’r angen hynny wedi cael ei adlewyrchu yn y Cynllun. Ni chredir ei fod gan hynny yn ystyriol i ddynodi ychwaneg o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth.<br><br>Mae’r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn caniatáu ar gyfer creu unedau diwydiannol newydd ble fo hynny’n briodol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1412 | NFU Cymru (Dafydd | POLISI STRATEGOL | Gwrthwynebu | Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y polisiau rheoli datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun | **Dim yn derbyn** – Mae yna Arolwg Tir Cyflogaeth wedi ei gynnal sydd wedi ceisio adnabod yr angen |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Jarrett) [3285] | PS10 | | drafft. Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:<br><br>• ehangu busnesau priodol;<br>• ailddefnyddio adeiladau gwledig sy'n addas ar gyfer creu cyflogaeth;<br>• darparu unedau gwaith trwy addasu adeiladau gwledig traddodiadol;<br>• arallgyfeirio yn yr economi amaethyddol;<br>• cefnogi adfywiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd gwledig;<br>• dylai addasu neu newid defnydd adeiladau gwledig segur y tu allan i unrhyw ffiniau datblygu tai gael eu caniatau ar gyfer defnydd cyflogaeth;<br>• cynllun hyfyw sydd a gallu i addasu i ofynion cyfredol ffermio a busnesau i ffynnu yng nghefn gwlad. | ar gyfer safleoedd cyflogaeth– mae’r angen hynny wedi cael ei adlewyrchu yn y Cynllun. Ni chredir ei fod gan hynny yn ystyriol i ddynodi ychwaneg o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth.<br><br>Mae’r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn caniatáu ar gyfer creu unedau diwydiannol newydd ble fo hynny’n briodol er mwyn cefnogi economi gwledig ynghyd a throsi adeiladu gwledig.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1418 | NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisïau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun draft ac rydym yn awyddus i weld cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:-<br><br>• Mentrau yn angenrheidiol i gwrdd ag anghenion ffermio a choedwigaeth gyfoes. Hefyd isadeiledd yn cynnwys egni gwyrdd, twristiaeth a mentrau eraill a fydd yn helpu i gefnogi'r economi gwledig cynaliadwy. | **Dim yn derbyn**<br><br>Nodir y sylw<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1424 | NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] | POLISI STRATEGOL PS10 | Gwrthwynebu | Dymunai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol mewn perthynas â’r Polisïau Rheoli Datblygu o fewn y Cynllun draft. Fe ddylai’r Cynllun:-:<br><br>• Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o dir yn yr ardal ac | **Dim yn derbyn**<br><br>Nodir y sylw |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mae angen cyfeiriad penodol yn y Cynllun tuag at werth cynnyrch amaethyddol lleol.<br>• Hyrwyddo ffyniant amaethyddol ac arallgyfeirio<br>• Cydnabod gwerth mân-ddaliadau ym Môn a Gwynedd fel modd di ffermwr ifanc gychwyn a datblygu busnes.<br>• Cydnabod gwerth y diwydiant fwyd ac amaeth lleol i'r economi leol, cyfleoedd gyflogaeth a'r iaith Gymraeg. | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1608 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI STRATEGOL PS10 | Cefnogi | Bydd modd cael y prif gyflenwad dŵr mae ei angen ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau dŵr trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau).<br>Bydd unrhyw safle arfaethedig sydd angen dŵr nad yw'n ddŵr yfed, i'w ddefnyddio mewn proses, angen sylw pellach i ddeall sut byddai modd ateb y gofyn yma.<br>Bydd modd cael y carthffosydd mae eu hangen ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosydd trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 1609 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI STRATEGOL TH PS10 | Cefnogi | Os bydd y defnyddwyr terfynol posibl o'r safleoedd hyn yn arwain at ollwng allan elifiant masnach newydd neu wahanol i gynt, bydd wedyn angen caniatâd ysgrifenedig DCWW. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 1610 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI STRATEGAE TH PS10 | Cefnogi | Mae'r dyraniadau cyflogaeth arfaethedig yn arwynebedd sylweddol o dir ar gyfer datblygu, ac nid yw'n hysbys ar hyn o bryd beth allai'r galw yno fod. Mae'n hanfodol ein bod ni'n deall y galw yma, er mwyn gallu asesu'r effaith ar ein hasedau. Efallai bydd angen gwneud asesiadau modelu ar gyfer dŵr a charthffosiaeth, i weld sut byddem ni'n darparu'r cyflenwad dŵr a lle byddai modd cysylltu'r datblygiad arfaethedig efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Ar hyn o | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | bryd, mae ein hymateb ni ar sail y galw domestig ar sail ardal a lleoliad y dyraniadau arfaethedig. | |

**CYF1 – Gwarchod a Dynodi Tir Ac Unedau Ar Gyfer Defnydd Cyflogaeth**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 801 | Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762] | POLISI CYF1 | Cefnogi | Cyflogaeth deg, yn allweddol i roi sail i gymuned sefydlog ym Mangor - sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg. Croesawi gynllun yn bwriadu gwarchod tir ac unedau ar y safleoedd cyflogaeth bresennol ym Mangor<br>Angen mawr am ddatblygiad pellach<br><br>Argymell sefydlu pwyllgor i edrych ar anghenion 21 ganrif dinas Bangor fel un endid. - angen sicrhau anheddau, isadeiledd, cyfleoedd am waith ac addysg, Canolfan siopa, amgylchedd glan a mwynderau addas ar gyfer trigolion a holl ddefnyddwyr y ddinas.<br>Angen I'r Pwyllgor gynnwys cynrychiolaeth o garedigion y ddinas. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 826 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI CYF1 | Gwrthwynebu | CYF1 Sylw ar y gwahaniaeth rhwng y nifer a ddiogelir a chyfradd targed y tir cyflogaeth a gymerir. | **Derbyn** – Cytunir fod angen diwygio'r Polisi er mwyn cael mwy o eglurder ynglyn a sut mae'r ffigwr o'r tir i'w warchod a'i ddynodi wedi cael ei bennu.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn eglurder cynigir fod y Polisi yn cael ei |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng dynodiadau a gwarchodaeth tir cyflogaeth ynghyd a chynnwys eglurder pellach ynglyn a sut mae'r tiroedd wedi cael eu hadnabod.<br><br>**Newid â Ffocws: NF47** |
| 883 | Mr John Tripp [252] | POLISI CYF1 | Gwrthwynebu | Anelu i Gaergybi ddatblygu diwydiant<br><br>• i ymchwilio Wylfa B<br>• prif borthladd o Iwerddon. | **Dim yn derbyn**<br><br>Nodir y sylw<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1013 | Cyngor Cymuned Pentir (Mr Dilwyn Pritchard) [1536] | POLISI CYF1 | Gwrthwynebu | Mae'r Cyngor yn bryderus ynglyn a'r ffaith fod safle diwydiannol i gael ei sefydlu yn ardal Penrhosgarnedd. Nid gwrthwynebu cael mwy o lefydd gwaith y mae'r Cyngor, ond y teimlad yw bod hyn yn mynd i ychwanegu at brysurdeb yr ardal. Rhaid cofio bod arian mawr wedi eu gwario dros y ddegawd ddiwethaf at ddatblygu Stad Bryn Cegin a'r camau rhesymol fyddai rhoi'r safle yma ar waith. Byddai hefyd yn gallu bod yn gartref i stad gwyddoniaeth newydd sydd yn mynd i gael ei ddatblygu yn ardal y Gaerwen, Sir Fon. | **Dim yn derbyn**<br><br>Nodir y sylw<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1047 | Llywodraeth | POLISI CYF1 | Gwrthwynebu | Mae angen mwy o eglurhad ynghylch sut mae'r berthynas | **Derbyn** - Cytunir ei fod yn briodol diwyno'r tabl |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru (Mr Mark Newey) [1561] | | | rhwng dosbarthiad safleoedd cyflogaeth yn effeithio ar y ddarpariaeth dai. Mae'r ymrwymiadau/dyraniadau tai yn seiliedig ar hierarchaeth o aneddleoedd a byddai'n dda o beth pe bai modd cyflwyno'r safleoedd cyflogaeth hefyd yn yr un modd. Byddai'n fuddiol hefyd pe bai modd darparu mwy o wybodaeth ynghylch sut y mae'r awdurdodau wedi ystyried y gydberthynas rhwng y tri brîf safle cyflogaeth strategol ar hyd coridor yr A55 ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd gan, drwy hynny, greu problemau o ran eu cyflawni. | sydd yn cynnwys y dynodiadau tir cyflogaeth er mwyn amlygu sut mae'n cyfarch y strategaeth ddosbarthu.<br><br>Mae'r lefel twf sydd yn y Cynllun wedi ei selio ar sail-economi uchel er mwyn cyfarch gweledigaeth ac amcanion y Cynllun. Mae'n senario sy'n cyfleu dyheadau'r Cynghorau i uchafu cynnydd mewn swyddi o fewn yr economi leol yn arbennig yn rhan olaf y Cynllun. Mae'r lefel twf tai yn adlewyrchu hynny. Credir bod yr agwedd yma yn gwneud y rhagolygon twf ar gyfer oes y Cynllun yn fwy grymus na'r rhagolygon ar sail tueddiadau, sydd ddim yn adlewyrchu dyheadau'r Cynghorau (yn arbennig Cyngor Sir Ynys Môn) ar gyfer yr ardal. Credir bod darparu cymysgedd ac ystod o safleoedd cyflogaeth o safon uchel sy'n gallu cyfarch gofynion busnes a chyflogwyr yn sylfaenol i wireddu llwyddiant economaidd. Bydd y cynigion arwyddocaol gan y sector breifat, e.e. Horizon, yn denu cyflogwyr eraill ac yn ychwanegu at y pwll sgiliau a fydd ar gael yn lleol.<br><br>**Argymhelliad** – Er mwyn eglurder cynigir diwygio'r tabl sydd yn cynnwys y gwarchodaeth cyflogaeth ac eu rhannu fyny yn ol yr anheddle perthnasol. Ymhellach fe fydd angen cyd-blethu y rhan yma o'r Cynllun hefo'r rhan sydd yn ymwneud a thwf tai.<br><br>**Newid â Ffocws: NF45, NF46, NF47, NF48** |
| 1048 | Llywodraeth Cymru (Mr | POLISI CYF1 | Gwrthwynebu | Mae angen mwy o esboniad i: 1. Egluro pam fod y cynllun yn darparu 478ha o'i gymharu â'r angen am o gwmpas 180ha o | **Derbyn** – Cytunir ei fod yn briodol diwygo'r polisi er mwyn cyfiawnhau faint o dir cyflogaeth sydd |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mark Newey) [1561] | | | dir cyflogaeth a welir yn yr adolygiad tir cyflogaeth. 2. ddangos bod oblygiadau'r os-ddarpariaeth ar gyfer darpariaeth tai a gallu safleoedd i'w datblygu wedi cael ystyriaeth. 3. ddangos bod yr asesiad cyflogaeth yn gyson a "TAN23: Datblygiad Economaidd (2014)" Llywodraeth Cymru. 4. egluro beth yw'r oblygiadau ar gyfer y math o swyddi (sgiliau a chyflogau) a'r cartrefi os fydd y defnydd o dir yn uwch na 180ha dros oes y cynllun ac os yw'r gwaith asesu, yn arbennig yr AEIG, wedi rhoi ystyriaeth i'r gor-ddynodi. | yn cael ei ddynodi/warchod.<br><br>Mae yna Astudiaeth Tir Cyflogaeth gyfredol wedi ei gynnal er mwyn asesu'r safleoedd cyflogaeth er mwyn dewis y rhai sydd fwyaf tebygol o gyfarch gofynion busnesau heddiw a rhai yn y dyfodol oherwydd eu lleoliad a'u hygyrchedd. Mae hyn yn gyson ag amcanion cynaliadwy'r Cynllun, tra hefyd yn darparu lefel o hyblygrwydd ar gyfer ystyried cynigion amgen (dim o fewn dosbarth defnydd B1, B2 neu B8 ond sy'n creu swyddi) trwy ddefnyddio meini prawf penodol (Polisi CYF4). Mae hyn yn gyson a Pholisi Cynllunio Cymru (Rhan 7.5)<br><br>Mae nifer o'r safleoedd cyflogaeth a warchodir ym Môn yn cael eu gwarchod a'u dynodi i adlewyrchu statws yr Ynys fel Parth Menter. Mae safleoedd Parth Menter yn derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Fe fydd y fframwaith fonitro yn adolygu'r Cynllun, pe adnabyddir fod yna ormodedd o dir cyflogaeth yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun fe fydd posib adolygu hynny.<br><br>Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu papur sydd yn cefnogi Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd. Rhoddir y papur yma arweiniad pellach ar y fethodoleg o gynnal astudiaeth cyflogaeth. Mae'r fethodoleg a argymhellir yn cyd-fynd a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer ein Hastudiaeth Tir |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyflogaeth. Bwriedir (ar y cyd hefo'r Adrannau Datblygu Economaidd y ddau Awdurdod) i gadw basdata a fydd yn cynnwys gwybodaeth gyfredol ynglŷn â'r defnyddiau cyflogaeth sydd yn bodoli ar y safleoedd cyflogaeth dan sylw.<br><br>**Argymhelliad** – I sicrhau eglurder cynigir diwygio'r Polisi er mwyn esbonio mewn mwy o fanylder sut mae'r ffigwr cyflogaeth wedi ei bennu,<br><br>**Newid â Ffocws: NF46, NF47, NF48** |
| 1167 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI CYF1 | Gwrthwynebu | Mae yna bryderon am y diffyg hyblygrwydd i'r safleoedd yn y polisïau hyn o ran safleoedd i'w defnyddio ar gyfer datblygiad cysylltiedig heblaw am ar gyfer cyflogaeth (B1, B2 a B8), yn enwedig mewn perthynas â newid defnydd ar gyfer etifeddiaeth (e.e. i dwristiaeth) gan y byddai hyn yn lleihau'n gyffredinol y safleoedd B1, B2 a B8 sydd ar gael ac felly'n mynd yn groes i'r bwriad i'r rhain fod yn safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i bolisïau PS10, CYF1 a CYF2 mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. | **Derbyn yn rhannol** - Cydnabyddir fod yna bosibilrwydd y gallai safleoedd cyflogaeth aros yn segur am gyfnod o amser heb fuddsoddiad a chan hynny mae yna sail o bosib i ganiatáu defnydd amgen (i gyflogaeth) ar rhai safleoedd. Nodir fodd bynnag fod yr Arolwg Tir Cyflogaeth wedi nodi'r angen i warchod a dynodi'r safleoedd dan sylw (ym mholisi CYF1) ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8 yn bennaf) a hynny yn dilyn asesiad o'r angen a'u gallu gwirioneddol i ddod yn ei flaen ar gyfer y defnydd dan sylw. Gan hynny, yn y man cychwynnol defnydd cyflogaeth yw'r defnydd a ffafrir ar y safleoedd cyflogaeth a enwir ym Mholisi CYF1.<br><br>Mae yna bolisi presennol sef Polisi CYF4 sydd yn rhoi elfen o hyblygrwydd ar y safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau amgen mewn achosion eithriadol yn unig, ble fo yna dystiolaeth gref yn cael ei gyflwyno i gyfiawnhau |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gwneud hynny. Mae'n gyson a Pholisi Cynllunio Cymru a TAN23. Mae Atodiad 9 y Cynllun Adnau yn adnabod cyfres o ganllawiau cynllunio atodol a fydd yn cael eu paratoi i gefnogi'r Cynllun. Mae'n adnabod bwriad i baratoi un a fydd yn rhoi arweiniad ynglyn a'r dystiolaeth a fydd ei angen yn gysylltiedig â datblygiadau amgen.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i'r polisi CYF4 a fydd yn cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth.<br><br>**Newid Bychan: NB10** |
| 1401 | Cyng/Counc Alwyn Gruffydd [381] | POLISI CYF1 | Gwrthwynebu | Mae angen ymestyn y ddarpariaeth o dir diwydiannol y tu hwnt i'r prif ganolfannau er mwyn ehangu twf ar draws y Sir. Byddai gwneud hynny yn gyfrwng i ddiogelu cymunedau trwy elwa o fwrlwm economaidd.<br><br>Dynodi Y Ffôr, Llanystumdwy a Bryncir yn ganolfannau gwaith. | **Dim yn derbyn** – Mae yna arolwg o Diroedd Cyflogaeth wedi cael ei gynnal sydd wedi adnabod yr anghenion ar gyfer dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Ystyrir fod yna ddarpariaeth ddigonol gan hynny wedi ei gynnig sydd yn cynnwys safleoedd yn Y Ffôr.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

## CYF2 – Defnyddiau Ategol ar Safleoedd Cyflogaeth

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1168 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI CYF2 | Gwrthwynebu | Mae yna bryderon am y diffyg hyblygrwydd i'r safleoedd yn y polisïau hyn o ran safleoedd i'w defnyddio ar gyfer datblygiad cysylltiedig heblaw am ar gyfer cyflogaeth (B1, B2 a B8), yn enwedig mewn perthynas â newid defnydd ar gyfer etifeddiaeth (e.e. i dwristiaeth) gan y byddai hyn yn lleihau'n gyffredinol y safleoedd B1, B2 a B8 sydd ar gael ac felly'n mynd yn groes i'r bwriad i'r rhain fod yn safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i bolisïau PS10, CYF1 a CYF2 mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. | **Derbyn yn rhannol** - Cydnabyddir fod yna bosibilrwydd y gallai safleoedd cyflogaeth aros yn segur am gyfnod o amser heb fuddsoddiad a chan hynny mae yna sail o bosib i ganiatáu defnydd amgen (i gyflogaeth) ar rhai safleoedd. Nodir fodd bynnag fod yr Arolwg Tir Cyflogaeth wedi nodi'r angen i warchod a dynodi'r safleoedd dan sylw (ym mholisi CYF1) ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8 yn bennaf) a hynny yn dilyn asesiad o'r angen a'u gallu gwirioneddol i ddod yn ei flaen ar gyfer y defnydd dan sylw. Gan hynny, yn y man cychwynnol defnydd cyflogaeth yw'r defnydd a ffafrir ar y safleoedd cyflogaeth a enwir ym Mholisi CYF1.<br><br>Mae yna bolisi presennol sef Polisi CYF4 sydd yn rhoi elfen o hyblygrwydd ar y safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau amgen mewn achosion eithriadol yn unig, ble fo yna dystiolaeth gref yn cael ei gyflwyno i gyfiawnhau gwneud hynny. Mae'n gyson a Pholisi Cynllunio Cymru a TAN23. Mae Atodiad 9 y Cynllun Adnau yn adnabod cyfres o ganllawiau cynllunio atodol |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | a fydd yn cael eu paratoi i gefnogi'r Cynllun. Mae'n adnabod bwriad i ddatblygu un a fydd yn rhoi arweiniad ynglyn a'r dystiolaeth a fydd ei angen yn gysylltiedig â datblygiadau amgen. Ni ystyrir fod yna wybodaeth rymus wedi ei gyflwyna a fyddai'n cyfiawnhau diwygio geiriad y polisi<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i'r polisi CYF4 a fydd yn cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth.<br><br>**Newid Bychan: NB10** |

## CYF4 – Defnyddiau Amgen Ar Safleoedd Cyflogaeth

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 798 | First Investments Ltd [3091] | Policy CYF4 | Gwrthwynebu | Mae FIL yn gwrthwynebu geiriad presennol y polisi hwn sy'n golygu na fydd yn hyrwyddo buddsoddiad na gwelliannau i ofod llawr cyflogaeth presennol ond yn hytrach, bydd yn arwain at gadw pethau fel y maent yn Stâd Ddiwydiannol Melin Peblig sydd â gofod llawr oedrannus, ac mewn rhai lleoliadau yno, gofod llawr cyflogaeth nas defnyddir gyda chyfran helaeth o lefydd gwag. Yn lle hynny, dylai'r polisi hyrwyddo buddsoddiad yn y stoc cyflogaeth presennol ac fel bo'r angen, hyrwyddo defnyddiau amgen ar safle Peblig fyddai'n gallu darparu buddsoddiad a gwelliannau i ansawdd | **Derbyn yn rhannol** - Cydnabyddir fod yna bosibilrwydd y gallai safleoedd cyflogaeth aros yn segur am gyfnod o amser heb fuddsoddiad a chan hynny mae yna sail o bosib i ganiatáu defnydd amgen (i gyflogaeth) ar rhai safleoedd. Nodir fodd bynnag fod yr Arolwg Tir Cyflogaeth wedi nodi'r angen i warchod a dynodi'r safleoedd dan sylw (ym mholisi CYF1) ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8 yn bennaf) a hynny yn dilyn asesiad o'r angen a'u |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyffredinol y gofod llawr cyflogaeth.<br><br>* Mae FIL yn gwneud cais i ddiwygio'r polisi i gynnwys y newidiadau a ganlyn:<br>Creu maen prawf annibynnol ychwanegol sy'n ymdrin â safleoedd cyflogaeth safon isel, e.e. Stâd Ddiwydiannol Peblig, er mwyn caniatáu defnyddiau amgen a cholli peth tir cyflogaeth ble y gallai datblygiadau o'r fath ddarparu gwelliannau i'r gofod llawr sy'n weddill. | gallu gwirioneddol i ddod yn ei flaen ar gyfer y defnydd dan sylw. Gan hynny, yn y man cychwynnol defnydd cyflogaeth yw'r defnydd a ffafrir ar y safleoedd cyflogaeth a enwir ym Mholisi CYF1.<br><br>Mae yna bolisi presennol sef Polisi CYF4 sydd yn rhoi elfen o hyblygrwydd ar y safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau amgen mewn achosion eithriadol yn unig, ble fo yna dystiolaeth gref yn cael ei gyflwyno i gyfiawnhau gwneud hynny. Mae'n gyson a Pholisi Cynllunio Cymru a TAN23. Mae Atodiad 9 y Cynllun Adnau yn adnabod cyfres o ganllawiau cynllunio atodol a fydd yn cael eu paratoi i gefnogi'r Cynllun. Mae'n adnabod bwriad i ddatblygu un a fydd yn rhoi arweiniad ynglyn a'r dystiolaeth a fydd ei angen yn gysylltiedig â datblygiadau amgen. Ni ystyrir fod yna wybodaeth rymus wedi ei gyflwyna a fyddai'n cyfiawnhau diwygio geiriad y polisi<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i'r polisi CYF4 a fydd yn cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth.<br><br>**Newid Bychan: NB10** |
| 827 | Ymgyrch Diogelu Cymru | Policy CYF4 | Gwrthwynebu | CYF4 Ceisir mwy o hyblygrwydd mewn defnyddiau amgen safleoedd. | **Dim yn derbyn** - Cydnabyddir fod yna bosibilrwydd y gallai safleoedd cyflogaeth aros yn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | | | | segur am gyfnod o amser heb fuddsoddiad a chan hynny mae yna sail o bosib i ganiatáu defnydd amgen (i gyflogaeth) ar rhai safleoedd. Nodir fodd bynnag fod yr Arolwg Tir Cyflogaeth wedi nodi'r angen i warchod a dynodi'r safleoedd dan sylw (ym mholisi CYF1) ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8 yn bennaf) a hynny yn dilyn asesiad o'r angen a'u gallu gwirioneddol i ddod yn ei flaen ar gyfer y defnydd dan sylw. Gan hynny, yn y man cychwynnol defnydd cyflogaeth yw'r defnydd a ffafrir ar y safleoedd cyflogaeth a enwir ym Mholisi CYF1.<br><br>Mae yna bolisi presennol sef Polisi CYF4 sydd yn rhoi elfen o hyblygrwydd ar y safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau amgen mewn achosion eithriadol yn unig, ble fo yna dystiolaeth gref yn cael ei gyflwyno i gyfiawnhau gwneud hynny. Mae'n gyson a Pholisi Cynllunio Cymru a TAN23. Mae Atodiad 9 y Cynllun Adnau yn adnabod cyfres o ganllawiau cynllunio atodol a fydd yn cael eu paratoi i gefnogi'r Cynllun. Mae'n adnabod bwriad i ddatblygu un a fydd yn rhoi arweiniad ynglyn a'r dystiolaeth a fydd ei angen yn gysylltiedig â datblygiadau amgen. Ni ystyrir fod yna wybodaeth rymus wedi ei gyflwyna a fyddai'n cyfiawnhau diwygio geiriad y polisi<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1169 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | Policy CYF4 | Gwrthwynebu | Nid yw'n eglur sut byddai angen ateb meini prawf y polisi hwn er mwyn i dir gael ei ryddhau, ac yn nodi nad yw'n eglur pa dystiolaeth fydd yn dderbyniol i'r Cynghorau i brofi cydymffurfiaeth efo'r polisi. Fodd bynnag, yn hytrach na gofyn am newidiadau penodol i bolisi CYF4, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig isod. Rheiny wedyn fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisïau hyn. | **Derbyn yn rhannol** - Ystyrir fod yna eglurhad digonol wedi cael ei gynnwys o fewn y Polisi. Maes o law fe fwriedir paratoi Canllaw Cynllunio Atodol a fydd yn rhoi arweiniad pellach ar newid defnydd ar Safleoedd Cyflogaeth.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i’r polisi CYF4 a fydd yn cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth.<br><br>**Newid Bychan: NB10** |

## CYF5 – Ailddefnyddio Ac Addasu Adeiladau Gwledig Neu Uned Breswyl Ar Gyfer Defnydd Busnes Neu Adeiladu Unedau Newydd Ar Gyfer Busnes / Diwydiant

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 332 | Mr Geoff Wood [2916] | POLISI CYF5 | Gwrthwynebu | Cefnogi'r polisi'n gyffredinol. Fodd bynnag, ceir nifer o adeiladau gwerinol, gwledig nad ydynt yn strwythurol gadarn ond maent yn dal i fod mewn un darn i raddau helaeth ac mae iddynt werth treftadaeth. Dan y polisi sydd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, byddai'r rhain yn cael eu colli. Fodd bynnag, gellid trwsio'r mathau hyn o adeiladau a chyflwyno defnyddiau hyfyw ar eu cyfer a fyddai o gymorth i | **Dim Newid** - Cydnabyddir fod yna adeiladau traddodiadol sydd yn rhan bwysig o amgylchedd adeiladol gwledig hanesyddol yr ardal. Mae’r cymal sydd yn nodi’r angen i adeilad fod yn strwythurol gadarn yn sicrhau na fyddai’r datblygiad yn arwain at greu unedau newydd. Mae’n bwysig bod modd trosi'r adeilad heb waith |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | Peblig, Caernarfon | | Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod prif gyflenwad dŵr yn croesi'r safle hwn, a gallai gyfyngu ar ddwysedd datblygiad y safle. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased. | cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1638 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C19 - Peblig, Caernarfon | Gwrthwynebu | Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle hwn. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased.<br>Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Caernarfon, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |

## 7) Porthmadog

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1086 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource | POLISI CYF1, C8 - Parc Busnes, Porthmado | Gwrthwynebu | Mae'r safle cyfan ym mharth llifogydd C1. Fodd bynnag, mae gwaith modelu llifogydd yn awgrymu mai risg isel sydd i'r safle mewn gwirionedd, oherwydd yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn yr ardal.  Byddai ANC yn disgwyl i unrhyw gais cynllunio fod ag Asesiad Canlyniad Llifogydd i'w gefnogi, i | **Dim yn derbyn –** Mae rhan helaeth o'r tir sydd yn destun y warchodaeth wedi cael ei ddatblygu'n barod. Mae yna Asesiad o Ganlyniad llifogydd Strategol Cam 2 wedi cael ei gynnal gan Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer Parc Busnes |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521] | g | | sicrhau bod datblygiad yn cael ei ddiogelu'n ddigonol | Porthmadog sydd yn dangos fod y bygythiad llifogydd yn fychan yn yr ardal yma.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1623 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C8 - Parc Busnes, Porthmadog | Cefnogi | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle, i gysylltu efo'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Adrannau 98-101 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.<br>Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Porthmadog yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

## 8) Pwllheli

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 105 | Cyfoeth Naturiol Cymru (Mr Gareth Thomas) [2757] | POLISI CYF1, C6 - Adwy'r Hafan, Pwllheli | Gwrthwynebu | Mae safle C6 o fewn parth llifogydd C1 NCT15: Mapiau Cyngor Datblygu. Nid yw'r risg llifogydd wedi'i asesu. Byddai lleoli uned gyflogaeth newydd ar y safle'n mynd yn groes i bolisi cenedlaethol NCT15. Yn ôl adran 9.3 yr Asesiad Strategol ar Ganlyniadau Llifogydd, nid yw'r un o'r dyraniadau yn syrthio y tu mewn i barthau C1 neu C2. Efallai bod perygl llifogydd oherwydd torri amddiffynfeydd (twyni tywod) ar hyd y ffin ddwyreiniol a phosibilrwydd o ddŵr llifogydd yn cael ar y safle dros wal y cei i'r gorllewin o'r safle. | **Dim yn derbyn –** mae rhan helaeth o'r tir sydd yn destun y warchodaeth wedi cael ei ddatblygu'n barod.<br><br>Mae defnydd cyflogaeth yn ôl NCT15: Datblygu a Pherygl Llifogydd yn cael ei ystyried fel datblygiad sy'n 'llai agored i niwed'. Yn unol â NCT dylid ystyried ceisiadau datblygu mewn Parth Llifogydd C1 a C2 mewn achosion ble bo modd profi bod datblygiad yn cyfrannu tuag at amcanion |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd angen un ai cam 2 /cam 3 Asesiad Strategol ar Ganlyniadau Llifogydd fydd yn dangos bod y safle yn cydymffurfio efo anghenion NCT15, neu nad fod unrhyw unedau cyflogaeth newydd i'w darparu o fewn y safle yma. | cyflogaeth allweddol sydd yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod Lleol a phartneriaid eraill er mwyn cynnal anheddiad neu ranbarth. Fe fyddai rhaid i unrhyw ddarpar gais cynllunio ar y safle gydymffurfio gyda gofynion a amlinellir yn NCT15 ynghyd a chael ei gefnogi gan Asesiad o Ganlyniad Llifogydd cynhwysfawr.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1082 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI CYF1, C6 - Adwy'r Hafan, Pwllheli | Gwrthwynebu | Mae'r tir ym mharth llifogydd C1 TAN 15 Llywodraeth Cymru: Mapiau Cyngor Datblygu. Byddai datblygu'r tir yma ar gyfer cyflogaeth yn groes i gyfarwyddyd polisi cenedlaethol TAN 15. Mae ANC o'r farn na chafodd risg llifogydd y safle yma ei asesu'n ddigonol. Mae ANC yn argymell paratoi Asesiad Strategol Canlyniad Llifogydd cam 2 neu gam 3 a gyrru hwnnw i ANC i asesu ymhellach, er mwyn dangos y byddai datblygu'r safle yma ar gyfer cyflogaeth yn cydymffurfio efo gofynion TAN15 neu nad ydi datblygiad sy'n dod ymlaen o dan y dyraniad yma'n cynnwys codi unrhyw unedau cyflogaeth newydd tu mewn i'r safle. | **Dim yn derbyn –** Mae rhan helaeth o'r tir sydd yn destun y warchodaeth wedi cael ei ddatblygu'n barod.<br><br>Mae defnydd cyflogaeth yn ol NCT15: Datblygu a Pherygl Llifogydd yn cael ei ystyriaed fel datblygiad sy'n 'llai agored i niwed'. Yn unol a NCT dylid ystyried ceisiadau datblygu mewn Parth Llifogydd C1 a C2 mewn achosion ble bo modd profi bod datblygiadyn cyfrannu tuag at amcanion cyflogaeth allweddol sydd yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod Lleol a phartneriaid eraill er mwyn cynnal anheddiad neu ranbarth. Fe fyddai rhaid i unrhyw ddarpar cais cynllunio ar y safle gydymffurfio gyda gofynion a amlinellir yn NCT15 ynghyd a chael ei gefnogi gan Asesiad o Ganlyniad Llifogydd cynhwysfawr.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1619 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C6 - Adwy'r Hafan, Pwllheli | Cefnogi | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae gorsaf pwmpio carthffosiaeth tu mewn i'r safle a gallai fod angen gwneud asesiad o'r orsaf hon i weld a fyddai modd derbyn y llif o'r safle ynte a fyddai angen gwelliannau pellach i'r orsaf cyn symud ymlaen efo'r datblygiad. Os na fydd y seilwaith carthffosiaeth bresennol yn ddigon ar gyfer y lefel arfaethedig o dwf, bydd modd cael darpariaeth isadeiledd carthffosiaeth trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Nodir sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 1620 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C6 - Adwy'r Hafan, Pwllheli | Cefnogi | Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pwllheli'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodir sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

**13) Gaerwen**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1658 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C33 - Stad Ddiwydian nol Gaerwen, Gaerwen | Gwrthwynebu | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod prif gyflenwad dŵr yn croesi'r safle a bydd angen mesurau amddiffyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar y bibell, a gallai hynny effeithio ar ddwysedd y datblygiad mae modd ei gael ar y safle.<br>Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i’r materion |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | garthffosiaeth gyhoeddus, fydd efallai angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd angen asesiad modelu hydrolig i benderfynu lle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus, a byddai disgwyl i ddarpar ddatblygwyr dalu am y gwaith ymchwilio yn ystod y cyfnodau o gynllunio ymlaen llaw. Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle, i gysylltu rhannau o'r safle efo'r rhwydwaith carthffosydd. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1659 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C33 - Stad Ddiwydian nol Gaerwen, Gaerwen | Gwrthwynebu | Mae'r dyraniadau cyflogaeth arfaethedig yn y Gaerwen yn arwynebedd sylweddol o dir ar gyfer datblygiad, ac ar hyn o bryd does dim gwybodaeth bendant beth fydd y galw yno. Mae'n hanfodol ein bod ni'n deall beth fydd y galw yma er mwyn gallu asesu a fydd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Gaerwen yn gallu ateb y gofynion domestig o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1691 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C33 - Stad Ddiwydian nol | Gwrthwynebu | * Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, fydd efallai angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gaerwen, Gaerwen | | neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd angen asesiad modelu hydrolig i benderfynu lle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus, a byddai disgwyl i ddarpar ddatblygwyr dalu am y gwaith ymchwilio yn ystod y cyfnodau o gynllunio ymlaen llaw. Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle, i gysylltu rhannau o'r safle efo'r rhwydwaith carthffosydd. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1663 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C36 - Estyniad i Stad Ddiwydiannol Gaerwen, Gaerwen | Gwrthwynebu | Efallai bydd angen cael prif gyflenwad cŵr tu allan i'r safle hwn i'w wasanaethu. Bydd modd cael hynny trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau dŵr trwy Adrannau 41 - 44 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.<br>Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, fydd efallai angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd angen asesiad modelu hydrolig i benderfynu lle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus, a byddai disgwyl i ddarpar ddatblygwyr dalu am y gwaith ymchwilio yn ystod y cyfnodau o gynllunio ymlaen llaw. Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle, i gysylltu rhannau o'r safle efo'r rhwydwaith carthffosydd. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1664 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C36 - Estyniad i Stad Ddiwydian nol Gaerwen, Gaerwen | Gwrthwynebu | Mae'r dyraniadau cyflogaeth arfaethedig yn y Gaerwen yn arwynebedd sylweddol o dir ar gyfer datblygiad, ac ar hyn o bryd does dim gwybodaeth bendant beth allai'r galw yno fod. Mae'n hanfodol ein bod ni'n deall beth fydd y galw yma er mwyn gallu asesu a fydd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Gaerwen yn gallu ateb y gofynion domestig o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i’r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1692 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C36 - Estyniad i Stad Ddiwydian nol Gaerwen, Gaerwen | Gwrthwynebu | * Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, fydd efallai angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd angen asesiad modelu hydrolig i benderfynu lle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus, a byddai disgwyl i ddarpar ddatblygwyr dalu am y gwaith ymchwilio yn ystod y cyfnodau o gynllunio ymlaen llaw. Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle, i gysylltu rhannau o'r safle efo'r rhwydwaith carthffosydd. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i’r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1180 | Cyngor Cymuned Llanfihangel Esc (Alun | POLISI CYF1, C38 - Parc Gwyddonia | Gwrthwynebu | Pryderon ynglyn gor-ddatblygu y stad ddiwydiannol bresennol. Mae creu safle cyflogaeth (C38) yn hollol anaddas yn y pentref am nifer o resymau fel, effaith ar drafnidiaeth, dŵr wyneb, carthffosiaeth ac effaith weledol. Mae yna safle | **Dim yn derbyn -** Bellach mae’r safle dan sylw wedi derbyn caniatâd cynllunio a chan hynny mae yna fwriad cadarn i ddatblygu’r safle. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Foulkes) [3121] | eth Menai | | gyflogaeth enfawr yng Ngaerwen yn barod sydd dros harner maint y pentref hefo nifer o unedau/safleoedd yn wag. | **Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1287 | Mon a Gwynedd Friends of the Earth (Mr Richard Mills) [2937] | POLISI CYF1, C38 - Parc Gwyddonia eth Menai | Gwrthwynebu | Ddylai hwn barhau i fod yn fferm, yn ddelfrydol fel adnodd addysg/arddangosiad. | **Dim yn derbyn -** Bellach mae'r safle dan sylw wedi derbyn caniatâd cynllunio a chan hynny mae yna fwriad cadarn i ddatblygu'r safle.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1666 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C38 - Parc Gwyddonia eth Menai | Cefnogi | Fe ddylai ein rhwydwaith dŵr lleol ni fod yn ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 1667 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C38 - Parc Gwyddonia eth Menai | Gwrthwynebu | Mae'r dyraniadau cyflogaeth arfaethedig yn y Gaerwen yn arwynebedd sylweddol o dir ar gyfer datblygiad, ac ar hyn o bryd does dim gwybodaeth bendant beth fydd y galw yno. Mae'n hanfodol ein bod ni'n deall beth fydd y galw yma er mwyn gallu asesu a fydd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Gaerwen yn gallu ateb y gofynion domestig o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1694 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) | POLISI CYF1, C38 - Parc Gwyddonia | Gwrthwynebu | * Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, fydd efallai angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | [2680] | eth Menai | | ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd angen asesiad modelu hydrolig i benderfynu lle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus, a byddai disgwyl i ddarpar ddatblygwyr dalu am y gwaith ymchwilio yn ystod y cyfnodau o gynllunio ymlaen llaw. Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle, i gysylltu rhannau o'r safle efo'r rhwydwaith carthffosydd. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |

## 21) Bethesda

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1635 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C17 - Felin Fawr, Bethesda | Cefnogi | Fe ddylai ein rhwydwaith dŵr lleol ni fod yn ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle hwn. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased.<br>Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Tregarth yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd i'r dalgylch yma. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

## 23) Llanberis

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1641 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C21 - Glynrhonwy, Llanberis | Cefnogi | Fe ddylai ein rhwydwaith dŵr lleol ni fod yn ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae Gorsaf Pwmpio Carthffosiaeth Glyn Rhonwy yn yr ardal hon a gall fod angen gwneud asesiad i weld beth ydi ei chapasiti, gan ddibynnu ar y math o ddatblygiad fydd dan sylw.<br>Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanberis yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

## 25) Nefyn

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1645 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C25 - Stad Ddiwydiannol Nefyn, Nefyn | Cefnogi | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, fydd efallai angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br>Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Morfa Nefyn yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

## 26) Penrhyndeudraeth

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1621 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C7 - Parc Busnes, Penrhyndeudraeth | Cefnogi | Mae'r rhwydwaith dŵr lleol tu mewn i'r stad ddiwydiannol bresennol yn ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae gorsaf pwmpio carthffosiaeth tu mewn i'r safle a gallai fod angen gwneud asesiad o'r orsaf hon i weld a fyddai modd derbyn y llif o'r safle ynte a fyddai angen gwelliannau pellach i'r orsaf cyn symud ymlaen efo'r datblygiad. Os na fydd y seilwaith carthffosiaeth bresennol yn ddigon ar gyfer y lefel arfaethedig o dwf, bydd modd cael darpariaeth isadeiledd carthffosiaeth trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 1622 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C7 - Parc Busnes, Penrhyndeudraeth | Cefnogi | Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Penrhyndeudraeth yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 1284 | Duncan Teed [289] | POLISI CYF1, C22 - Cyn safle Ysbyty Bron y Garth, Penrhyndeudraeth | Gwrthwynebu | 1) Ail-ddosbarthu'r hen ysbyty o ddefnydd B1 i ddefnydd C3 a C2.<br>2) Cywiro'r camgymeriad ynglŷn â'r arwynebedd tir yn CYF1 a thablau eraill (1.6ha nid 16 ha)<br><br>- Cyn ysbyty GIG yw'r adeilad (C2, ac yn rhestredig Gradd 2)<br>- Newidiodd y Cynllun Adnau'r dosbarth defnydd i B1<br>- Wedi archwilio defnydd B1 ac nid yw'r adeiladau'n strwythurol addas i'w trosi'n ddefnydd B1, ac yn Rhestredig | **Derbyn yn rhannol** – Bydd angen diwygio'r polisi er mwyn cynnwys yr arwynebedd tir cywir.<br><br>Mae'r Arolwg tir cyflogaeth wedi adnabod yr angen ar gyfer y safle ar gyfer defnydd cyflogaeth a chan hynny fe fwriedir parhau hefo'r warchodaeth.<br><br>**Argymhelliad** – Er mwyn cywirdeb bydd angen |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gradd 2.<br>- Dim galw am ychwaneg o unedau busnes (unedau gwag ym Mhenrhyndeudraeth a Blaenau Ffestiniog).Ni fyddai newid i B1 yn hyfyw yn fasnachol<br>- Mae angen datblygu'r adeilad i rwystro dirywiad - mae'r adeiladwr yn cynghori trosi'r adeilad yn fflatiau.<br>- Mynediad da i'r A496 a meysydd parcio wedi'u hwynebu â tharmac.<br>- Yr ochr ddwyreiniol (0.8ha) heb ei datblygu a gellid ei datblygu ar gyfer tai neu gyflogaeth (gwesty, canolfan arddio ac ati). | diwygio arwynebedd y safle ar y tabl perthnasol ym Mholisi CYF1.<br><br>**Newid Ffocus: NF47** |
| 1442 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoria dau Cynllunio) [1521] | POLISI CYF1, C22 - Cyn safle Ysbyty Bron y Garth, Penrhynde udraeth | Gwrthwynebu | Mae rhan o'r safle du mewn i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ysbyty Bron y Garth. Byddwn yn awgrymu bod briff dylunio yn cael ei baratoi i dywys datblygiad ar safle'r hen Ysbyty Bron y Garth. | **Dim yn derbyn**<br><br>**Nodir y sylw** – Fe fydd ystyriaeth yn cael ei roi i Safle o Diddordeb Gwyddonol Arbennig pan gyflwynir cais cynllunio.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1642 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C22 - Cyn safle Ysbyty Bron y Garth, Penrhynde udraeth | Cefnogi | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon.<br>Byddai'r llif dŵr budr yn rhedeg i Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth Penrhyndeudraeth ac efallai bydd angen gwneud asesiad o'r orsaf honno i weld a oes modd derbyn y llif ynte a fydd angen gwelliannau i'r orsaf bwmpio er mwyn galluogi datblygiad i fynd ymlaen.<br>Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Penrhyndeudraeth yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ardal ddatblygu hon. | |
| 1083 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI CYF1, C39 - Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth | Gwrthwynebu | Mae'r tir ym mharth llifogydd C2 TAN 15 Llywodraeth Cymru: Mapiau Cyngor Datblygu. Byddai datblygu'r tir yma ar gyfer cyflogaeth yn groes i gyfarwyddyd polisi cenedlaethol TAN 15. Mae ANC o'r farn na chafodd risg llifogydd y safle yma ei asesu'n ddigonol. Mae ANC yn argymell paratoi Asesiad Strategol Canlyniad Llifogydd cam 2 neu gam 3 a gyrru hwnnw i ANC i asesu ymhellach, er mwyn dangos y byddai datblygu'r safle yma ar gyfer cyflogaeth yn cydymffurfio efo gofynion TAN15 neu nad ydi datblygiad sy'n dod ymlaen o dan y dyraniad yma'n cynnwys codi unrhyw unedau cyflogaeth newydd tu mewn i'r safle. | **Dim yn derbyn –** Mae rhan helaeth o'r tir sydd yn destun y warchodaeth wedi cael ei ddatblygu'n barod.<br><br>Mae defnydd cyflogaeth yn ol NCT15: Datblygu a Pherygl Llifogydd yn cael ei ystyriaed fel datblygiad sy'n 'llai agored i niwed'. Yn unol a NCT dylid ystyried ceisiadau datblygu mewn Parth Llifogydd C1 a C2 mewn achosion ble bo modd profi bod datblygiadyn cyfrannu tuag at amcanion cyflogaeth allweddol sydd yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod Lleol a phartneriaid eraill er mwyn cynnal anheddiad neu ranbarth. Fe fyddai rhaid i unrhyw ddarpar cais cynllunio ar y safle gydymffurfio gyda gofynion a amlinellir yn NCT15 ynghyd a chael ei gefnogi gan Asesiad o Ganlyniad Llifogydd cynhwysfawr.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 106 | Cyfoeth Naturiol Cymru (Mr Gareth Thomas) [2757] | POLISI CYF1, C39 - Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth | Gwrthwynebu | C39: Mae Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth ym mharth llifogydd C2 NCT15 Llywodraeth Cymru: Mapiau Cyngor Datblygu. Byddai lleoli uned gyflogaeth newydd ar y safle'n mynd yn groes i bolisi cenedlaethol NCT15. Yn ôl adran 9.3 yr Asesiad Strategol ar Ganlyniadau Llifogydd, nid yw'r un o'r dyraniadau yn syrthio y tu mewn i barthau C1 neu C2. Nid yw'r perygl llifogydd wedi'i asesu.<br>Bydd angen un ai cam 2 /cam 3 Asesiad Strategol ar Ganlyniadau Llifogydd fydd yn dangos bod y safle yn | **Dim yn derbyn –** Mae rhan helaeth o'r tir sydd yn destun y warchodaeth wedi cael ei ddatblygu'n barod.<br><br>Mae defnydd cyflogaeth yn ol NCT15: Datblygu a Pherygl Llifogydd yn cael ei ystyriaed fel datblygiad sy'n 'llai agored i niwed'. Yn unol a NCT dylid ystyried ceisiadau datblygu mewn Parth Llifogydd C1 a C2 mewn achosion ble bo modd |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cydymffurfio efo anghenion NCT15, neu nad fod unrhyw unedau cyflogaeth newydd i'w darparu o fewn y safle yma. | profi bod datblygiadyn cyfrannu tuag at amcanion cyflogaeth allweddol sydd yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod Lleol a phartneriaid eraill er mwyn cynnal anheddiad neu ranbarth. Fe fyddai rhaid i unrhyw ddarpar cais cynllunio ar y safle gydymffurfio gyda gofynion a amlinellir yn NCT15 ynghyd a chael ei gefnogi gan Asesiad o Ganlyniad Llifogydd cynhwysfawr.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1681 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C39 - Stad Ddiwydian nol Griffin, Penrhynde udraeth | Cefnogi | * Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>* Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. Byddai'r llif dŵr budr yn rhedeg i Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth Penrhyndeudraeth ac efallai bydd angen gwneud asesiad o'r orsaf honno i weld a oes modd derbyn y llif ynte a fydd angen gwelliannau i'r orsaf bwmpio er mwyn galluogi datblygiad i fynd ymlaen.<br>* Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Penrhyndeudraeth yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi’r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

**27) Penygroes**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1643 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C23 - Stad Ddiwydiannol Penygroes, Penygroes, Gwynedd | Cefnogi | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod nifer o garthffosydd yn croesi'r safle hwn. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased.<br>Mae Penygroes yn cael ei gwasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanllyfni, sy'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 926 | Mr Robert Jones [3107] | Map 27 - Penygroes, Gwynedd | Gwrthwynebu | Hoffem wrthwynebu'r ffin ddatblygu a gynigiwyd ar gyfer Canolfan Wasanaeth Leol Penygroes. Hoffem gynnig bod safle sydd gyferbyn â'r Ystâd Ddiwydiannol yn cael ei gynnwys o fewn ffin ddatblygu Penygroes. Felly, ystyrir y byddai cynnwys y safle tu mewn i ffin ddatblygu Penygroes, yn estyniad rhesymegol i'r ffin ddatblygu i ddarparu cymysg o ddatblygu masnachol, cymunedol a hamdden a all gynnwys gwasanaethau cymunedol megis gorsaf betrol a siop manwerthu, ynghyd â gwasanaethau hamdden megis canolfan groeso a gweithdai yn ymwneud â thwristiaid.<br><br>Hoffem weld ffin ddatblygu Penygroes yn cael ei hadolygu a'i newid i gynnwys y safle sydd gyferbyn â'r Ystâd Ddiwydiannol o fewn y ffin ddatblygu, fyddai'n ffurfio estyniad rhesymegol i'r ffin ddatblygu i ddarparu cymysg o ddatblygu masnachol, cymunedol a hamdden a all gynnwys gwasanaethau cymunedol megis gorsaf betrol a siop manwerthu, ynghyd â gwasanaethau hamdden megis canolfan groeso a gweithdai yn ymwneud â thwristiaid. | **Dim yn derbyn –** Nid yw'r Cynllun yn gwahardd defnyddiau sydd yn destun y gwrthwynebiad ar safleoedd addas sydd yn ymylu a'r ffin datblygu. O ran defnyddiau manwerthu ar y safle cyfeirir tuag at adran 10.3 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, 2016) sydd yn nodi'r ystyriaethau yn gysylltiedig hefo asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu tu allan i ffiniau datblygu.<br><br>Ymhellach fe gyfeirir tuag at Bolisi ISA2: Cyfleusterau Cymunedol sydd yn nodi'r ystyriaethau yn gysylltiedig â defnyddiau hamdden a chymunedol ar safleoedd addas wrth ymyl y ffin datblygu.<br><br>Ni ystyrir gan hynny ei fod yn briodol diwygio'r Cynllun yn unol â'r gwrthwynebiad.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

## 28) Tywyn

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1624 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C9 - Stad Pendre, Tywyn | Cefnogi | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Tywyn yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

## 39) Y Ffôr

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1385 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI CYF1, C10 - Ger garej betrol, Y Ffôr | Gwrthwynebu | Rydym yn cefnogi C10 o gwmpas y modurdy (Tir Dolwar). Wrth nodi bod C27 sy'n 2.8ha o dir cyflogaeth (stad ddiwydiannol, yn rhannol yn y CDU, yn dal yn wag awgrymwn y dylid felly dynodi C10 gyda hyblygrwydd, ar gyfer un ai tai neu gyflogaeth, yn dibynnu ar flaenoriaethau ar y gweill a chynigion datblygu. | **Derbyn yn rhannol** - Mae Polisi CYF4 yn hyrwyddo defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth pan fo yna gyfiawnhad i wneud hynny wedi ei dderbyn. Yn anochel, wrth ystyried unrhyw ddefnydd amgen fe fyddai rhaid rhoi ystyriaeth i'r polisïau a gynhwysir o fewn y cynllun yn ei gyfanrwydd, hynny yw'r polisïau sydd yn berthnasol ymwneud hefo'r defnyddiau dan sylw. Ni chredir fod yna dystiolaeth rymus wedi ei gyflwyno sydd yn golygu'r angen i |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddiwygio'r Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i'r polisi CYF4 a fydd yn cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth.<br><br>**Newid Bychan: NB10** |
| 1625 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C10 - Ger garej betrol, Y Ffôr | Gwrthwynebu | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff y Ffôr, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1647 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C27 - Stad Ddiwydian nol Y Ffôr, Y Ffôr | Gwrthwynebu | Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon.<br>Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim Newid** |
| 1648 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C27 - Stad Ddiwydian nol Y Ffôr, Y Ffôr | Gwrthwynebu | Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff y Ffôr, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |

## 53) Llangristiolus

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1014 | Watkin Jones (Mr Stuart Hardy) [3159] | Map 53 - Llangristiol us | Gwrthwynebu | Tir ger Llanfawr Newydd. Mae'r wybodaeth uchod, sy'n cynnwys arfarniad cynaladwyedd cynhwysfawr o'r safle, yn dangos bod y safle'n un strategol bwysig ym Môn a dylid ei ddyrannu ar gyfer ystod o ddefnyddiau (diwydiannol ysgafn / masnachol / defnyddiau cymysg / hamdden) y gellir eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun. Yn gryno, mae mynediad rhagorol i'r safle; gallai fod yn ffactor fyddai'n hwyluso cychwyn datblygiad ar safle'r orsaf wasanaeth gerllaw, byddai'n ei wneud yn fwy deniadol i fuddsoddwyr a byddai'n darparu synergedd rhwng cyflogaeth a datblygiadau defnydd cymysg. | **Dim yn derbyn –** Mae'r sylw yn gofyn am gael cynnwys y safle fel dynodiad cyflogaeth o fewn y Cynllun. Mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth gynhwysfawr a gynhaliwyd yn adnabod yr angen ar gyfer tiroedd cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun ac mewn canlyniad mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer yr angen hynny. Ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth yn nodi fod yr angen tu hwnt i'r hyn a adnabyddir. Ymhellach ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi cynnwys y safle dan sylw yn lle un o'r safleoedd eraill sydd wedi ei ddynodi ar |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gyfer dibenion cyflogaeth.<br><br>**Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

## II) Ferrodo

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1404 | Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] | POLISI CYF1, C20 - Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon | Gwrthwynebu | Dim ond yn nodi ehangder cyn safle Friction Dynamex yn rhannol fel un sydd wedi'i ddyrannu ac yn amodol i gefnogaeth polisi ar gyfer datblygiad. Felly, mae'r dyraniad hwn wedi'i ddiffinio'n artiffisial ac anghywir, ac nid yw'n adlewyrchu ehangder y tir a ddatblygwyd eisoes ar y safle.<br><br>Mae angen i'r cynllun ddarparu dull mwy hyblyg, ymatebol a phragmatig o ailddatblygu'r safle hwn. Er ei fod yn briodol o bosib ar gyfer datblygiadau B2, mae'r safle yn annhebygol o sicrhau'r fath ddatblygiad fel deilydd unigol. Byddai glynu at y math hwn o bolisi yn golygu na fyddai'n debygol i'r safle hwn gael ei ddatblygu ar gyfer defnyddiau B2.<br><br>Dylid dileu'r safle o Bolisïau PS10 a CYF1 a'i nodi fel safle datblygu adfywio / defnydd cymysg penodol.<br><br>Dylid cyfeirio at y rhagdybiaeth o blaid datblygu gynaliadwy. | **Derbyn yn rhannol** - Mae Polisi CYF4 yn hyrwyddo defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth pan fo yna gyfiawnhad i wneud hynny wedi ei dderbyn. Yn anochel, wrth ystyried unrhyw ddefnydd amgen fe fyddai rhaid rhoi ystyriaeth i'r polisïau a gynhwysir o fewn y cynllun yn ei gyfanrwydd, hynny yw'r polisïau sydd yn berthnasol ymwneud hefo'r defnyddiau dan sylw.<br><br>Ymhellach fe fwriedir diwygio'r map gwarchod tir cyflogaeth er mwyn cyd-fynd a'r safle cyflogaeth flaenorol. Ni fydd y diwygiad yma yn cydymffurfio ac ehangder y safle a oedd yn destun y gwrthwynebiad.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i'r polisi CYF4 a fydd yn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth.<br><br>Ymhellach fe fydd y map o'r warchodaeth yn cael ei ddiwygio er mwyn cywirdeb.<br><br>**Newid â Ffocws: NF132** |
| 1639 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C20 - Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon | Gwrthwynebu | Fe ddylai ein rhwydwaith dŵr lleol ni fod yn ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Byddai angen hyd helaeth o garthffosydd oddi ar y safle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Lle nad oes cyfleusterau carthffosiaeth gyhoeddus ar gael, mae darpariaethau 'Cylchlythyr 10/99 Gofynion Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth heb Brif Gyflenwad a Chynnwys Tanciau Septig mewn Datblygiadau Newydd' yn gweithredu ac mae angen ymgynghori efo Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae modd darparu carthffosydd ar gyfer y safle datblygu posibl trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |
| 1640 | Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths ) [2680] | POLISI CYF1, C20 - Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon | Gwrthwynebu | Pe byddai'n cael ei gysylltu efo'r rhwydwaith garthffosydd cyhoeddus, byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Caernarfon. Byddai angen eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr. | **Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>**Dim Newid** |

## Yr Economi Ymwelwyr

### Cefndir a Chyflwyniad

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 294 | Cyfeillion LLyn (Mrs Sian Parri) [2871] | 7.3.46 | Gwrthwynebu | Dylid nodi'n glir fod gwrthdaro rhwng hybu twristiaeth yn y modd traddodiadol a gwarchod yr iaith Gymraeg. | **Dim yn derbyn**<br>Ni ddylid darllen y cynllun ar ei ben ei hun. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei siapio gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, a chynnal a chreu cymunedau cynaliadwy,<br><br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 191 | Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778] | 7.3.47 | Cefnogi | Daw twristiaeth sy'n gysylltiedig â meysydd carafanau a gwersyllfeydd â swm sylweddol o arian i ardaloedd Môn a Gwynedd. Arian 'newydd' yw hwn a chwistrellir i mewn i'r economi lleol. Hoffwn weld agwedd fwy cadarnhaol, gan awdurdodau, tuag at ddatblygiad meysydd carafanau a gwersyllfeydd presennol a'u safon. Mae angen i berchenogion gael rhyw elw o'u buddsoddiad. | **Nodwyd**<br>Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi ardal y cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**PS11 – Yr Economi Ymwelwyr**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 184 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI STRATEGOL PS11 | Gwrthwynebu | Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleusterau addysgol, llynnoedd pysgota, canolfannau chwaraeon dŵr, traciau beicio mynydd, beicio cwad, cyfleusterau gwifren uchel, cyfleoedd dringo creigiau, amffitheatr ar gyfer cyngherddau, cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Bydd yr holl gyfleusterau uchod yn creu cyflogaeth ac yn cefnogi economïau gwledig a dylid eu cefnogi ar dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio yn yr ardal wledig.<br><br>Caniatáu hyblygrwydd yn y policy ar gyfer defnyddiau terfynol amgen a hyfyw o safleoedd mwynau. | **Derbyn**<br>Mae Polisïau TWR1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr, TWR2: Llety Gwyliau, TWR3: Carafanau Sefydlog, Safleoedd Cabanau Gwyliau a Llety Gwersylla Amgen Parhaol yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o’r blaen sy’n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2014, ffigwr 4.3)<br><br>**Argymhelliad**<br>Dim newidiadau i’r polisi ond cynnwys diffiniad o’r term, “Tir a Ddatblygwyd o’r Blaen” yn yr rhestr o dermau fel y gellir dehongli’r polisi yn hawdd.<br><br>**Newid Bycahn NB??** |
| 185 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI STRATEGOL PS11 | Gwrthwynebu | Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleusterau addysgol, llynnoedd pysgota, canolfannau chwaraeon dŵr, traciau beicio mynydd, beicio cwad, cyfleusterau gwifren uchel, cyfleoedd dringo creigiau, amffitheatr ar gyfer cyngherddau, cyfleoedd llety, gwersylloedd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Bydd yr holl | **Nodwyd**<br>Mae Polisïau TWR1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr, TWR2: Llety Gwyliau, TWR3: Carafanau Sefydlog, Safleoedd Cabanau Gwyliau a Llety Gwersylla Amgen Parhaol yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o’r blaen sy’n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2014, ffigwr 4.3) |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfleusterau uchod yn creu cyflogaeth ac yn cefnogi economïau gwledig a dylid eu cefnogi ar dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio yn yr ardal wledig.<br><br>Caniatáu hyblygrwydd yn y policy ar gyfer defnyddiau terfynol amgen a hyfyw o safleoedd mwynau. | **Argymhelliad**<br>Dim newidiadau i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r term, "Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen" yn yr rhestr o dermau fel y gellir dehongli'r polisi yn hawdd.<br><br>**Newid â Ffocws NF111** |
| 792 | Caravan Club [3039] | POLISI TWR3 | Gwrthwynebu | In summary the policies relating to tourist accommodating are considered to be overly restrictive and lacking in clarity on the type of development which is acceptable on existing touring caravan sites. The policy should be amended to ensure that the plan does not effect the ability of local tourist businesses from adapting to the changing needs of the visitor economy and does not impact on the future economic viability of these businesses which support local economies, employments and communities. | **Derbyn**<br>Gellir gweld eglurhad o'r mathau o lety gwersylla amgen yn yr esboniad o bolisi TWR5 ond cytunir i gynnwys y diffiniad yn yr esboniad ar y polisi hwn.<br><br>Mae Polisi TWR5 yn cynnwys unedau teithiol, tra bo Polisi TWR3 yn cynnwys unedau sefydlog/ parhaol. Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Dim newid i'r polisi ond bydd diffiniad o "lety gwersylla amgen parhaol" yn cael ei gynnwys yn yr esboniad i'r polisi er mwyn sicrhau y gall y polisi gael ei ddehongli yn hawdd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Newid â Ffocws NF54** |
| 485 & 468 | Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] | 7.3.63 | Gwrthwynebu | Nid yw para 7.3.63 yn gyson efo Polisi TWR3 sy'n caniatau estyniadau i safleoedd waeth beth yw casgliadau astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti. Yn ychanegol, mae'n glir nad yw'r astudiaeth wedi ystyried capasiti'r ardal mewn digon o fanylder i allu dod i gasgliad nad oes 'dim capasiti' ar gyfer rhagor o ddatblygiadau carafan/ siale neu estyniadau. | **Dim yn derbyn**<br>Amlygodd Papur Testun 9: Twristiaeth y dwysedd uchel o Barciau Carafanau Sefydlog a Chabanau Gwyliau sydd ar neu yn agos at yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o'r AHNE.<br><br>Comisiynwyd Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau fel safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau drwy nodi a diogelu ardaloedd sensitif ac arwahanol rhag datblygiadau amhriodol. Prif amcan dynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol, felly, rhaid rhoi'r statws uchaf o amddiffyniad iddynt rhag datblygiadau amhriodol. Gall effeithiau cronnus datblygiadau carafanau sefydlog a chabanau gwyliau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ymwthio ar y dirwedd a niweidio cymeriad yr ardal wledig oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n gaeth. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiadau lleol anstatudol. Eu nod yw sicrhau nad yw'r dirwedd yn cael ei difrodi gan ddatblygiad amhriodol. Daeth yr astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti i'r casgliad yr ystyrir nad oes fel arfer unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau sefydlog/cabanau gwyliau pellach, nac estyniadau iddynt yn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (na'r ardaloedd sy'n cyfrannu tuag at eu lleoliad). |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae awdurdodau cyfagos ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru wedi defnyddio dull o'r fath o ran safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau.<br><br>Noda paragraff 7.3.63 y bydd cynnydd bach yn cael ei ganiatáu tu allan i'r AHNE ac ATA.<br><br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 518 | Haulfryn Group Ltd [2986] | 7.3.64 | Gwrthwynebu | Mae Paragraff 7.3.64 yn cyfeirio at ddim cynnydd yn niferoedd y carafanau neu siales. Dylid caniatáu cynnydd bychan yn nifer yr unedau pan fo'r datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun i wella amrediad ac ansawdd llety a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ar y safle. Heb gynnydd bychan yn nifer y lleiniau. efallai na fydd hi'n bosibl ariannu'r buddsoddiad sylweddol fydd ei angen i dalu am gynigion uwchraddio.<br>Pan fo Parciau Gwyliau wedi eu lleoli oddi mewn i'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol (o fewn yr AHNE) a bod angen adleoli lleiniau er mwyn symud y safle'n ôl o'r draethlin, dylid caniatáu cynnydd bychan yn nifer y lleiniau er mwyn cynorthwyo ag ariannu'r gwaith o adleoli lleiniau gwyliau a'r buddsoddiad sylweddol fydd ei angen.<br><br>POLISI TWR3 paragraff 7.3.64<br>newid i ganiatáu cynnydd bychan yn nifer yr unedau ar yr amod y gellid dangos y byddai gwelliannau sylweddol i'r safle a llai o effaith ar y tirlun yn digwydd yn sgil hynny. | **Dim yn derbyn**<br>Amlygodd Papur Testun 9: Twristiaeth y dwysedd uchel o Barciau Carafanau Sefydlog a Chabanau Gwyliau sydd ar neu yn agos at yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o'r AHNE.<br><br>Comisiynwyd Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau fel safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau drwy nodi a diogelu ardaloedd sensitif ac arwahanol rhag datblygiadau amhriodol. Prif amcan dynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol, felly, rhaid rhoi'r statws uchaf o amddiffyniad iddynt rhag datblygiadau amhriodol. Gall effeithiau cronnus datblygiadau carafanau sefydlog a chabanau gwyliau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ymwthio ar y dirwedd a niweidio cymeriad yr ardal wledig oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n gaeth. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiadau lleol anstatudol. Eu nod yw sicrhau nad yw'r dirwedd yn cael ei difrodi gan ddatblygiad amhriodol. Daeth yr astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti i'r casgliad yr ystyrir nad oes fel arfer unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau sefydlog/cabanau gwyliau pellach, nac estyniadau iddynt yn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (na'r ardaloedd sy'n cyfrannu tuag at eu lleoliad).<br><br>Mae awdurdodau cyfagos ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru wedi defnyddio dull o'r fath o ran safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau.<br><br>Noda paragraff 7.3.63 y bydd cynnydd bach yn cael ei ganiatáu tu allan i'r AHNE ac ATA.<br><br>Cytuno y caniateir cynnydd bach mewn unedau mewn parciau carafanau sefydlog a chabanau gwyliau presennol sydd wedi eu lleoli yn yr AHNE, ATA a Pharth Rheoli Newid Arfordirol, pan yr ategir y cais gan achos busnes i gyfiawnhau'r cynnydd.<br><br>**Argymhelliad**<br>Cynnwys y geiriad canlynol yn 3iii) Oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bod cynigion yn golygu adleoli parciau carfanau sefydlog a chabanau gwyliau presennol sy'n dod o fewn yr Ardal Rheoli |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Newid Arfordirol.<br><br>A chynnwys y geiriad canlynol ym mharagraff 7.3.62 “achos busnes/hyfywedd”<br><br>**Newid â Ffocws NF54** |
| 758 | Bourne Leisure Ltd [2768] | 7.3.65 | Cefnogi | Mae Bourne Leisure yn cefnogi 7.3.65 gan ei fod yn egluro mai diben y polisi yw hyrwyddo gwelliannau ac uwchraddio safon llety i ymwelwyr ynghyd â lleihau effeithiau'r safleoedd hyn ar y dirwedd. Mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd â dyheadau datblygu Bourne Leisure, sydd fel arfer yn ceisio aildrefnu/ailddatblygu safleoedd er mwyn gwella ansawdd cyffredinol y cyfleusterau gwyliau ynghyd â lleihau'r effaith ar yr amgylchedd lleol. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio technegau tirweddu sensitif. Rydym yn cefnogi dyhead y polisi o leihau'r effaith ar yr amgylchedd gan fod yr amgylchedd naturiol o ansawdd uchel yn atyniad allweddol i dwristiaid. | **Nodi’r Sylw Cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 198 | Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778] | 7.3.66 | Gwrthwynebu | Mae gosod terfyn o gynnydd o 10% mewn nifer yn rhoi'r parciau llai dan anfantais o gymharu â pharciau mawr sydd â niferoedd mawr o unedau ac mae'n rhoi mantais fasnachol annheg i'r parciau mwy. | **Dim Derbyn**<br>Bydd caniatáu cynnydd bychan ar y safle presennol yn ceisio hyrwyddo gwelliannau ac uwchraddio safon llety ymwelwyr ar safleoedd presennol , ac i leihau effaith y safleoedd hyn ar y dirwedd. Mae para 7.3.66 yn nodi oherwydd bod amrywiaeth sylweddol ym maint, natur a lleoliad y safleoedd, asesir pob cais yn cael ei asesu ar ei deilyngdod o fewn y canllawiau cyffredinol hyn .<br><br>**Argymhellion**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 759 | Bourne Leisure Ltd [2768] | 7.3.66 | Cefnogi | Mae Bourne Leisure yn cefnogi paragraff 7.3.66 oherwydd ystyriwn ei bod yn ddoeth peidio â diffinio maint yr arwynebedd y gellir ceisio amdano fel rhan o gynigion ailddatblygu. Mae hyn oherwydd gallai rhai cynigion fod angen arwynebedd safle mawr, fodd bynnag gellid defnyddio'r arwynebedd hwn fel byffer er mwyn tirweddu, sy'n cael effaith bositif ar yr amgylchedd lleol. Mae Bourne Leisure hefyd yn ystyried ei bod yn synhwyrol asesu pob safle ar ei haeddiant ei hun o fewn y canllaw cyffredinol hwn. Mae hyn oherwydd yr amrywiaeth eang o lety i dwristiaid yng Ngwynedd. | **Nodi'r Sylw Cefnogol**<br>**Argymhelliad**<br>**Dim Newid** |

**TWR4 – Deiliadaeth Gwyliau**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 97 | BH&HPA [2733] | POLISI TWR4 | Cefnogi | Dymunem gofrestru ein cefnogaeth i Bolisi TWR4 gan ei fod yn cydymffurfio â nodau ac amcanion Polisi Cynllunio Cymru ac yn unol â pholisïau tebyg y cynllun datblygu mewn Awdurdodau Cynllunio lleol cyfagos sy'n cefnogi ac yn annog cyfnodau estynedig i feddiannaeth wyliau. Mae'r Polisi'n gadarn ac yn bodloni'r holl brofion cadernid gofynnol. | **Nodi'r Sylw Cefnogol**<br>**Argymhelliad**<br>**Dim Newid** |
| 224 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI TWR4 | Cefnogi | Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol | **Nodi'r Sylw Cefnogol**<br>**Argymhelliad**<br>**Dim Newid** |
| 225 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI TWR4 | Cefnogi | Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, | **Nodi'r Sylw Cefnogol**<br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol | **Dim Newid** |
| 613<br>&<br>614 | Menter Môn (Helen Thomas) [1615] | POLISI TWR4 | Gwrthwynebu | Nid oes budd economaidd o ymestyn y tymor gwyliau i 12 mis fyddai'n cyfrannu at sicrhau cymunedau cynaliadwy. Ni all y Gymraeg ychwaith ymdopi gydag effaith negyddol ymestyn y tymor gwyliau. Gall hyn olygu cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth rhai cymunedau, a bod yr ychydig o fudd sydd i'w gael o hynny yn cael ei or-bwyso gan effeithiau negyddol caniatadau o'r fath - fel yr effaith ar natur ieithyddol cymunedau, a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Angen ailystyried y polisi o agor 12 mis. | **Dim yn derbyn**<br><br>Ni ddylid darllen y cynllun ar ei ben ei hun. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei siapio gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, a chynnal a chreu cymunedau cynaliadwy,<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 783 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] | POLISI TWR4 | Gwrthwynebu | Roedd pryder am ganiatau i safleoedd carafanau sefydlog/sialetau fod yn agored 12 mis y flwyddyn. Heb adnoddau dgonol i ellir monitro'r sefyllfa a mae posibilrwydd o fyw'n barhaol yn yr unedau - heb dalu trethi. | **Dim yn derbyn**<br><br>Mae canllawiau polisi cenedlaethol yn cefnogi tymor gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Mae PolisiTWR4 yn cynnwys meini prawf cadarn er mwyn sicrhau bod y llety yn cael ei ddefnyddio i ddibenion gwyliau yn unig, ac nad yw'n dod yn brif neu'n unig le preswylio'r deilydd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 789 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI TWR4 | Gwrthwynebu | Mae'r nod o ymestyn y tymor twristiaeth yn synhwyrol, ond mae'n peri problemau yn y sector carafanau. Ni fydd caniatáu defnyddio carafanau sefydlog trwy'r flwyddyn gron yn hytrach na defnyddio'r cyfyngiad blaenorol o 10 mis a hanner yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'w heffaith weledol ac mae'n ymateb i gynseiliau sydd wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, rhannwn bryderon nad oes digon o gapasiti i fonitro a gorfodi defnydd gwyliau gwirioneddol ac i atal defnydd preswyl parhaol, yn groes i'r polisi dan sylw. Mae'n annhebygol y byddai'r buddion economaidd o ddim ond 6 wythnos ychwanegol yn y tymor tawel yn cyfiawnhau'r risgiau hyn. Ar y llaw arall, credwn hefyd fod polisïau i gyfyngu'r defnydd gwyliau o garafanau sefydlog i 28 diwrnod ar y tro neu 3 mis y flwyddyn hefyd yn fympwyol, yn anymarferol, ac na fyddai modd eu gorfodi.<br><br>Gwnewch i ffwrdd â'r cyfyngiadau ar ddefnydd gwyliau carafanau, gan nad oes modd eu gweithredu. | **Dim yn derbyn**<br><br>Mae canllawiau polisi cenedlaethol yn cefnogi tymor gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Mae PolisiTWR4 yn cynnwys meini prawf cadarn er mwyn sicrhau bod y llety yn cael ei ddefnyddio i ddibenion gwyliau yn unig, ac nad yw'n dod yn brif neu'n unig le preswylio'r deilydd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 795 | Caravan Club [3039] | POLISI TWR4 | Gwrthwynebu | Mewn crynodeb mae'r polisïau sy'n perthyn i lety gwyliau llawer rhy gaeth ac yn brin o eglurder sydd yn dderbyniol mewn meysydd carafanau presennol. Dylid y polisi cael ei ddiwygio i sicrhau fod y cynllun ddim yn effeithio ar allu busnesau twristiaeth leol i ymdopi gyda newidiadau yn economi ymwelwyr a ddim yn cael effaith ar ddyfodol hyfywdra economaidd y busnesau yma sydd yn cefnogi'r economi leol, cyflogwyr a chymunedau. | **Dim yn derbyn**<br><br>Mae canllawiau polisi cenedlaethol yn cefnogi tymor gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Mae PolisiTWR4 yn cynnwys meini prawf cadarn er mwyn sicrhau bod y llety yn cael ei ddefnyddio i ddibenion gwyliau yn unig, ac nad yw'n dod yn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | brif neu'n unig le preswylio'r deilydd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 1400 | Cyng/Counc Alwyn Gruffydd [381] | POLISI TWR4 | Gwrthwynebu | Barn yw nad yw ymestyn y tymor gwyliau yn gwneud llawer i hybu cynaliadwyedd<br>cymunedau a bod hynny o fudd sydd i'w gael o hynny yn cael ei or-bwyso gan effeithiau negyddol caniatadau o'r fath, fel yr effaith ar natur ieithyddol cymunedau a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.<br><br>Angen ystyried ymhellach y polisi o agor 12 mis. | **Dim yn derbyn**<br><br>Ni ddylid darllen y cynllun ar ei ben ei hun. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei siapio gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, a chynnal a chreu cymunedau cynaliadwy,<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## TWR5 – Safleoedd Carafannau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwesylla Amgen Dros Dro

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 98 | BH&HPA [2733] | POLISI TWR5 | Gwrthwynebu | Er derbyn fersiwn ddrafft polisi TWR5 yn gyffredinol, trwy ddefnyddio maen prawf 7 methir y profion cadernid a osodir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Nid oes rheswm cynllunio dros osod terfyn ar hyd cyfnod aros a byddai hyn yn gorchymyn yn afresymol sut y dylid rhedeg parc. Ni fyddai modd gorfodi'r angen na'i fonitro ac nid yw'r cyfryw angen yn unol â pholisïau cynllunio lleol eraill mewn ardaloedd gerllaw. O'r herwydd, gofynnir gwneud i ffwrdd â'r elfen hon o Bolisi TWR5. Fel bod Polisi TWR5 yn 'gadarn' dylid diwygio'r testun cysylltiedig. Gweler sylw llawn am newidiadau penodol. | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol.  Trwy ganiatáu i'r carafanau teithiol aros ar y safle gydol y flwyddyn gellid dadlau y byddent yn cael yr un effaith, o ran cynllunio defnydd tir, â safle carafanau sefydlog newydd.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 199 | Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778] | POLISI TWR5 | Gwrthwynebu | Dylid caniatáu i feysydd carafanau teithiol storio carafanau i gwsmeriaid ar yr amod y cânt eu cadw mewn mannau nad ydynt yn tynnu sylw.<br><br>Mae hyn yn elfen allweddol o weithgareddau carafanau teithiol ac nid oes cyfeiriad tuag at y mater yn y ddogfen polisi.  Bydd storio unedau yn cael effaith positif ar leihau'r traffig ar brif ffyrdd ac ar ffyrdd cefn gwlad.  Bydd hefyd yn lleihau llygredd ceir oherwydd ni fydd y car yn tynnu carafán. | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 226 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI TWR5 | Cefnogi | Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol | **Nodi'r Sylw Cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 227 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI TWR5 | Cefnogi | Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol | **Nodi'r Sylw Cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 467 | Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] | POLISI TWR5 | Gwrthwynebu | Rydym yn gwrthwynebu meini prawf 3 a 7 polisi TWR 5. Dylid diwygio maen prawf 3 i ddarllen: gellir ei symud odd ar y safle os nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach. | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 784 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] | POLISI TWR5 | Gwrthwynebu | Roedd aeoldau wedi sylw fod cynydd mewn ceisiadau a chryn bwysedd gan y math yma o ddatblygiad yn ardal Llŷn. Gofynwyd os sail i;r polisi ac oedd yna ddadansoddiad o gynydd mewn unedau/effaith datblygiadau newydd wedi ei wneud? Credir y dylia'r polisi fod yn fwy caeth oddi mewn, a gerllaw, yr ardal ddynodedig. Credir fod blaenoriaeth i fonitro cydymffurfiaeth hawl cynllunio, amodau cynllunio, amodau tirweddu ac amodau preswyliaeth. | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Mae'r cynllun yn cydnabod bod pwysau trwm yn bodoli mewn llawer o gymunedau sydd ar neu ger yr arfordir, yn cynnwys rhannau helaeth o'r ddau AHNE. Bydd y Cynghorau yn gofyn am dystiolaeth gref na fydd ceisiadau ar gyfer unedau pellach mewn ardaloedd o'r fath yn ychwanegu at broblemau gwasanaethu nac yn niweidio cymeriad neu adnoddau naturiol yr ardaloedd hyn. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 788 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI TWR5 | Gwrthwynebu | Gwrthwynebwn barhad polisi sy'n caniatáu safleoedd carafanau teithiol yn ardaloedd mwyaf sensitif y dirwedd, yn absenoldeb tystiolaeth sy'n dangos ei effaith. Credwn nad yw effaith weledol carafanau teithiol, gan gynnwys yr effaith gronnus, yn cael ei lawn werthfawrogi, ac mae risg y bydd mor fawr â'r effaith gydnabyddedig o safleoedd sefydlog yn y gorffennol. Fel polisi rhagofalus gofynnwn am foratoriwm ar safleoedd teithiol newydd o fewn ardaloedd AHNE, ATA ac o fewn 2km i'r arfordir, a pheth cyfyngiad ar faint estyniadau i safleoedd presennol. Cefnogwn bolisïau ar gyfer ymestyn safleoedd presennol, cyn belled ag y caiff cyfyngiadau manwl eu gosod yn gyfnewid am welliannau amgylcheddol gwirioneddol, a bod y rhain yn cael eu monitro a'u gorfodi.<br><br>O fewn yr ardaloedd AHNE, ATA ac mewn ardaloedd eraill o fewn 2km i'r arfordir, caiff cynigion am garafanau teithiol newydd eu gwrthod. Caniateir cynigion am safleoedd teithiol newydd mewn ardaloedd eraill, cynigion am feysydd gwersylla sydd wirioneddol dros dro ym mhob ardal, a chynigion am estyniadau cyfyngedig i safleoedd presennol neu leiniau ychwanegol ym mhob ardal cyn belled ag y byddant yn cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn: [1-7 fel yn | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Mae'r cynllun yn cydnabod bod pwysau trwm yn bodoli mewn llawer o gymunedau sydd ar neu ger yr arfordir, yn cynnwys rhannau helaeth o'r ddau AHNE. Bydd y Cynghorau yn gofyn am dystiolaeth gref na fydd ceisiadau ar gyfer unedau pellach mewn ardaloedd o'r fath yn ychwanegu at broblemau gwasanaethu nac yn niweidio cymeriad neu adnoddau naturiol yr ardaloedd hyn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | nhestun y cynllun drafft adnau.] | cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 468 | Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] | 7.3.74 | Gwrthwynebu | Dylid gwneud i ffwrdd â'r geiriau "Dylid symud pob uned oddi ar y safle pan nad yw'n cael ei defnyddio ac yn ystod misoedd y gaeaf" gan fod carafanau teithiol, pebyll a phodiau gwersylla yn cael aros ar y tir "pa na chânt eu defnyddio". At hyn, mae nifer o'r meysydd carafanau teithio a gwersyllfeydd amgen yn agored yn ystod rhai o "fisoedd y gaeaf" ond nid i gyd. O'r herwydd mae'r testun sy'n gofyn am eu symud yn ystod misoedd y gaeaf yn byrhau'r tymor gwyliau, yn groes i'r polisi cenedlaethol. | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol ar yr amgylchedd lleol.<br><br>Mae canllawiau cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth yn nodi y dylai awdurdodau roi ystyriaeth gydymdeimladol i geisiadau i ymestyn y cyfnod agor a ganiateir o dan ganiatadau sydd eisoes yn bodoli. Byddai amod meddiannaeth gwyliau yn ymddangos yn fwy priodol nag amod meddiannaeth dymhorol lle mae angen lleihau'r pwysau ar wasanaethau lleol. Dylai awdurdodau barhau i ddefnyddio amodau meddiannaeth dymhorol i atal defnydd preswyl parhaol o lety sydd, yn ôl cymeriad ei adeiladwaith neu ei ddyluniad, yn anaddas ar gyfer meddiannaeth barhaol yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dylai safleoedd carafanau a gwersylla gael eu sgrinio'n effeithiol, a'u cynllunio fel nad ydynt yn weledol ymwthiol. Mae sgrinio naturiol yn llai effeithiol yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd ei bod yn debygol y bydd llai o sgrinio gwyrdd naturiol megis coed a llwyni.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 472 | Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] | 7.3.75 | Gwrthwynebu | Mae modd asesu maint a derbynioldeb ardaloedd llecynnau caled yn ddigonol dan Bolisi TWR 5 heb fod angen "gwaharddiad" effeithiol fel y nodir ym mharagraff 7.3.75 | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy’n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol ar yr amgylchedd lleol.<br><br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 470 | Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] | 7.3.76 | Gwrthwynebu | Nid yw geiriad paragraff 7.3.76 yn gyson ag amcanion Polisi TWR5 sy'n hyrwyddo sefydlu safleoedd teithiol a phebyll o safon uchel mewn lleoliadau priodol ac yn cydnabod cyfraniad mae safleoedd teithiol a phebyll yn ei wneud i'r ystod o lety gwyliau sydd ar gael i ymwelwyr. Bydd y bwriad i gyfyngu unrhyw isadeiledd dros dro i gyfleusterau basig gyda dim dreiniau na dwr yn mynd i gyfyngu darpariaeth o safleoedd teithiol a phebyll o safon uchel. Mae angen i safleoedd teithiol a phebyll o safon uchel ddarparu cysylltiadau dwr a dreinio mae ymwelwyr sy'n gwario llawer yn gofyn amdano. | **Dim yn derbyn**<br><br>Bydd unedau gwersylla amgen sydd â rhywfaint o sefydlogrwydd yn cael eu trin o dan bolisi TWR3. Mae Polisi TWR5 yn ymwneud â llety nad yw'n gorfodi effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 473 | Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] | 7.3.77 | Gwrthwynebu | Nid ydy unedau campio teithiol neu amgen yn cael ei gategoreiddio fel carafán sefydlog pan maent wedi cysylltu gyda phrif wasanaeth dŵr a gwastraff. Dileu 7.3.77 | **Dim yn derbyn**<br><br>Nid ystyrir bod unedau gwyliau sydd wedi'u cysylltu â'r prif ddraeniad, ac na ellir eu tynnu pan nas defnyddir hwy neu eu symud i ran arall o'r parc, yn unedau dros dro, ac felly byddant yn cael eu trin o dan bolisi TWR3 y Cynllun. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 475 | Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] | 7.3.78 | Gwrthwynebu | Mae'r polisi hwn yn gyfyngol heb fod rhaid ac yn groes i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol gan fod modd ymestyn manteision economaidd o nifer o ffurfiau o wersyllfeydd amgen i gyfnodau sy'n ymestyn dros 12 mis bron a bod. | **Dim yn derbyn**<br><br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol ar yr amgylchedd lleol.<br><br>Mae canllawiau cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth yn nodi y dylai awdurdodau roi ystyriaeth gydymdeimladol i geisiadau i ymestyn y cyfnod agor a ganiateir o dan ganiatadau sydd eisoes yn bodoli. Byddai amod meddiannaeth gwyliau yn ymddangos yn fwy priodol nag amod meddiannaeth dymhorol lle mae angen lleihau'r pwysau ar wasanaethau lleol. Dylai awdurdodau barhau i ddefnyddio amodau meddiannaeth dymhorol i atal defnydd preswyl parhaol o lety sydd, yn ôl cymeriad ei |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | adeiladwaith neu ei ddyluniad, yn anaddas ar gyfer meddiannaeth barhaol yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.<br><br>Dylai safleoedd carafanau a gwersylla gael eu sgrinio'n effeithiol, a'u cynllunio fel nad ydynt yn weledol ymwthiol. Mae sgrinio naturiol yn llai effeithiol yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd ei bod yn debygol y bydd llai o sgrinio gwyrdd naturiol megis coed a llwyni.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## Canol Trefi a Datblygiadau Manwethu

### Cyd-destun a Chyflwyniad

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 112 | CPERA | 7.3.81 | Cefnogi | Dylid defnyddio'r Stryd Fawr a chanol y ddinas hefyd ar | **Nodi** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760] | | | gyfer anheddau, yn ogystal â masnach ac adloniant. Ni ddylid adeiladu yn uwch na thri llawr wrth adeiladu fflatiau neu neuaddau myfyrwyr mewn safleoedd nad ydynt ar gampws. | Mae’r pwynt bwled cyntaf ym mharagraff 7.3.81 yn cyfeirio at Bolisi Cynllunio Llywodraeth Cymru. Nid yw polisïau’r Cynlluniau yn atal defnydd preswyl yng nghanol trefi. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau ar wahân sy’n cyfeirio at ddylunio ac integreiddio datblygiadau newydd yn eu hamgylchedd.<br><br>**Dim Newid** |

## PS12 – Canol Trefi a Manwerthu

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 432 | Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940] | POLISI STRATEG OL PS12 | Cefnogi | Mae map y Cynllun Lleol yn dynodi canol y dref yn anghywir, yn ein barn ni. Mae yna lawer o siopau rhwng yr orsaf a Thafarn y Commercial. Mae nifer o siopau pwysicaf y dref ar y rhan yma o'r Stryd Fawr, gan gynnwys McColls, un siop bapurau ac un siop fwyd Tseinaidd. Dylid cadw'r adeiladau hyn fel siopau, yn ein barn ni. | **Nodi**<br><br>Mae Map Blaenau Ffestiniog sy’n dangos canol y dref yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni.<br><br>**Dim Newid** |
| 606 | Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762] | POLISI STRATEG OL PS12 | Cefnogi | Cytuna Menter Iaith Bangor gyda'r Polisi PS12 Canol Trefi a Manwerthu, a phwynt 1 - Annog cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau addas (fel y diffinnir yn PCC a NCT 4) mewn amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n denu ystod eang o bobl ar wahanol amseroedd o'r dydd, sy'n ddiogel ac yn hygyrch i bawb. Mae gormodedd o defnyddiau bwyd poeth i’w gario allan yng nghanol Bangor a phrinder gwestai a bwytai. Byddai'r Fenter yn croesawu busnesau cynhenid Cymreig a fyddai'n defnyddio'r Gymraeg ac yn rhoi awyrgylch Gymreig | **Nodi**<br><br>Mae Polisi MAN7 yn darparu meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni wrth ystyried ceisiadau am siopau cludfwyd bwyd poeth, gan gynnwys ystyried gor-grynhoad.<br>Mae Polisi Strategol PS1 yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg.<br><br>**Dim Newid** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | i'r prif strydoedd sydd ar hyn o bryd yn brin iawn o unrhyw arlliw o'r Gymraeg a Chymreictod. | |
| 840 | Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523] | POLISI STRATEGOL PS12 | Gwrthwynebu | Croesawir polisïau sy'n gwarchod bywiogrwydd a hyfywdra Bangor fel Canolfan Fanwerthu Isranbarthol, a pholisïau sy'n diogelu Bangor wrth gyfyngu ar ehangiad datblygiadau manwerthu a hamdden allan o'r dref ac allan o ganol y dref. Fodd bynnag, dylid adnabod ardaloedd ailddatblygu arfaethedig o fewn canol y dref neu wrth ei ymyl, i sicrhau nad ydym yn colli cyfle manwerthu neu hamdden. Ymddengys bod nifer o safleoedd yn barod i'w datblygu:<br>-Ochr dde-ddwyrain y Stryd Fawr rhwng Plas Llwyd a Chyffordd Stryd y Deon, gan gynnwys maes parcio Plas Llwyd.<br>-Ochr ogledd-orllewin y Stryd Fawr gan gynnwys y Rose and Crown a'r White Lion.<br>-Adeiladau'r brifysgol a'r maes parcio oddi ar Stryd James, yng nghefn Stryd y Deon, gan gynnwys adeilad Octagon gynt. | **Dim yn derbyn**<br>Yn hytrach na dyrannu safleoedd penodol i gwrdd â'r arwynebedd llawr cyfleus a chymharol newydd ychwanegol a amcangyfrifir sydd ei angen dros gyfnod y Cynllun, mae'r Cynghorau o'r farn y byddai mwy o hyblygrwydd yn cael ei gyflawni drwy adael i rymoedd y farchnad ddod â safleoedd addas ymlaen ar gyfer datblygu neu ailddatblygu. Gellid hwyluso'r gwaith o ailddatblygu'r safleoedd a awgrymir yn yr Astudiaeth Manwerthu (2013), yn unol â Pholisi MAN1 a MAN3 a pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim Newid** |
| 861 | Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988] | POLISI STRATEGOL PS12 | Cefnogi | Cefnogir Polisi PS12 (gan nodi pwysigrwydd is-ranbarthol Bangor). | **Nodi**<br>Amend text to provide explanation of the reason for using different hierarchies for retail and settlements. The retail hierarchy is based on the different retail roles of the centres and information in the Retail Study (2013). The settlement hierarchy is based on a number of factors including the number, type and scale of existing services within each community. It is explained in greater detail in Topic Paper 5 Developing the Settlement Hierarchy<br>**Argymhelliad**<br>To ensure clarity the text within the policy will be amended to further explain how the retail hierarchy has been determined.<br>**Dim Newid** |
| 1067 | Llywodraeth Cymru (Mr | POLISI STRATEG | Gwrthwynebu | Gwahanol hierarchaeth i fanwerthu a thai- beth yw'r rhesymeg dros y gwahaniaeth? | **Derbyn** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mark Newey) [1561] | OL PS12 | | | **Newid â Ffocws: NF:55** |
| 1068 | Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] | POLISI STRATEG OL PS12 | Gwrthw ynebu | Nid yw'n glir ble fydd y ddarpariaeth o ofod manwerthu'n cael ei leoli. | **Derbyn**<br>Yn hytrach na dyrannu safleoedd penodol i gwrdd â'r arwynebedd llawr cyfleus a chymharol newydd ychwanegol a amcangyfrifir sydd ei angen dros gyfnod y Cynllun, mae'r UPCC o'r farn y byddai mwy o hyblygrwydd yn cael ei gyflawni drwy adael i rymoedd y farchnad ddod â safleoedd addas ymlaen ar gyfer datblygu neu ailddatblygu, yn unol â Pholisi MAN1 a MAN3 a pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Er hynny, ystyrir y dylid diwygio geiriad y Cynllun i ddangos canfyddiadau'r Astudiaeth Manwerthu, sy'n nodi sut y dylai'r gofyniad cyffredinol am arwynebedd llawr ychwanegol gael ei ddarparu ar sail anheddle unigol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio'r Polisi a'r testun perthnasol i nodi pa ganolfannau manwerthu y disgwylir iddynt ddarparu arwynebedd manwerthu ychwanegol dros gyfnod y Cynllun.<br><br>**Newid â Ffocws: NF: 56 a  NF57** |
| 1172 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI STRATEG OL PS12 | Gwrthw ynebu | Mae'n bwysig gan Horizon y gallai Maen Prawf 6 "gwrthsefyll ymestyn datblygiadau manwerthu a hamdden y tu allan i ganol trefi"  gyfyngu'n ormodol ar ddatblygu cyfleusterau hamdden ar safleoedd llety i weithwyr dros dro. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer | Dim yn derbyn<br>Mae Polisi PS12 yn cyd-fynd â chanllawiau polisi manwerthu a chanol trefi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) 2014 a TAN 4 (1996).<br><br>Ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol cynnwys polisïau manwl yn y cynllun sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd; mae polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun y bydd yn rhaid eu defnyddio wrth ystyried |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | penderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn. | datblygiad cysylltiedig.<br><br>**Argymhelliad**<br><br><br>**Dim Newid** |

**MAN1 – Datblygiadau Arfaethedig Mewn Canol Trefi**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 536 | Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267] | POLISI MAN1 | Gwrthwynebu | Nid yw Canol Tref Biwmares fel ag y mae ar y map hwn yn rhoi darlun cywir o ardal canol y dref go iawn y dref. Mae'n bwysig bod yr ardaloedd hyn yn cael eu nodi'n gywir yn y Cynllun Adnau fel bod swyddogaeth Biwmares fel canolfan gwasanaethau lleol a chyrchfan twristiaeth pwysig yn cael ei sicrhau gan y cynllun.<br><br>Newidiadau i'r Cynllun:<br>Newid yr ardaloedd sydd wedi'u marcio ar y map fel y nodwyd yn yr atodiad | **Dim yn derbyn**<br>Mae Map Canol Tref Biwmares yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni.<br><br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |

**MAN2 – Prif Ardaloedd Manwerthu (Y Craidd Manwethu)**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1392 | Cyng/Counc RH Wyn Williams [367] | POLISI MAN2 | Gwrthwynebu | Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch:-<br>Cais i gael cynnydd mewn ffin ardal siopau, oherwydd erbyn hyn mae yna sawl busnes ar hyd Lôn Engan yn barod, ac fe fydd angen ychydig o gynnydd gyda datblygiadau newydd yn ôl y galw a | **Dim yn derbyn**<br>Mae Map Canol Abersoch yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni.<br><br>**Argymhelliad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | phrysurdeb Abersoch dros y 10 mlynedd nesaf ac fel cyrchfan Twristiaeth Lleol. | Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |
| \ | Cyng/Counc RH Wyn Williams [367] | POLISI MAN2 | Gwrthwynebu | Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch:<br>Ardal gyda ffin yn cael ei adnabod fel ardal Fasnachol a fydd yn hybu gwaith yn y diwydiant twristiaeth, budd economaidd. | **Dim yn derbyn**<br>Mae Map Canol Abersoch yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni.<br><br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |

## MAN3 – Dim Sylw

## MAN4 – Dim Sylw

## MAN5 – Datblygiadau Manwethu Newydd Mewn Pentrefi

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 612 | Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036] | POLISI MAN5 | Gwrthwynebu | Ystyrir y byddai Borth-y-Gest yn elwa o gael allfa manwerthu gan nad oes siop yn y pentref. Ystyrir bod Maen Prawf 5 MAN5 yn gyfyngol heb fod angen, yn enwedig ar adeg pan mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi ei fod yn mynd i gyflwyno ffioedd parcio yn y mannau parcio oddi ar y stryd agosaf.<br><br>Newid a Awgrymir | **Dim yn derbyn**<br>Mae Polisi 2 yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni.<br><br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Diwygio maen prawf 5 MAN5 datblygiadau manwerthu newydd mewn pentrefi (trefniadau parcio i ganiatáu newid defnydd yr eiddo presennol i eiddo manwerthu heb fod angen cyfyngiadau parcio). | **Dim Newid** |

## MAN6 – Manwerthu yng Nghefn Gwlad

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1175 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI MAN6 | Gwrthwynebu | Nid yw'n eglur a fyddai'r polisi hwn yn cynnwys unrhyw ddatblygiad manwerthu sydd wedi'i gynnwys tu mewn i safleoedd llety i weithwyr dros dro.<br>Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisïau hyn. | **Dim yn derbyn**<br>Mae Polisi MAN6 yn cyd-fynd â chanllawiau polisi manwerthu a chanol trefi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) 2014 a TAN 4 (1996).<br><br>Ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol cynnwys polisïau manwl yn y cynllun sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd; mae polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun y bydd yn rhaid eu defnyddio wrth ystyried datblygiad cysylltiedig.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

## MAN7 – Defnyddiau Bwydd Poeth i'w Gario Allan

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 831 | Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523] | POLISI MAN7 | Gwrthwynebu | Mae'r Cyngor o'r farn<br>- Y dylid cynnwys cyfyngiad o 10% ar ddarpariaeth siopau sy'n darparu bwyd poeth i'w gario allan yn y ddwy ardal ble mae digon ohonynt ar gael yn barod<br>- yng ngwaelod Stryd Fawr Bangor o dan cyffordd Stryd y Deon ac yn Ffordd Caergybi ym Mangor Uchaf.<br>- Ni ddylid caniatáu siopau sy'n darparu bwyd poeth i'w gario allan yn y brif ardal fanwerthu ddynodedig yng nghanol y dref, gan eu bod yn creu sbwriel, gwastraff a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a all effeithio ar gymeriad canol y dref yn andwyol. | **Dim yn derbyn**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br>**Dim Newid** |